



Grant Cymorth Tai

Aseiad Anghenion



Tabl Cynnwys

Tabl Ffigurau	4
Sir Torfaen	6
Ffynonellau Data	8
Y Swyddfa Ystadegau Gwladol	9
Asesiad Llesiant Torfaen	12
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 (MALIC)	15
Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gwent.....	17
Plant a Phobl Ifanc	22
Pobl Hŷn	22
Iechyd a Phobl ag Anableddau Corfforol	23
Pobl ag Anableddau Dysgu ac Anhwylderau Sbectwm Awtistiaeth	24
Iechyd Meddwl.....	25
Nam Synhwyrdd	25
Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	26
Data Lleol ar Ddigartrefedd a Thai	28
Digartrefedd	28
Lefelau o Ddigartrefedd	28
Demograffeg Aelwydydd	29
Ethnigrwydd	29
Oedran	29
Atal Digartrefedd a Chymorth i'r Digartref	31
Cysgu ar y Stryd.....	32
Lefelau Digartrefedd yn y Dyfodol	33
Adnoddau.....	33
Y Gwasanaeth Atebion Tai	33
Porth Grant Cymorth Tai.....	33
Cynlluniau Peilot Tai yn Gyntaf	34
Lletyau Dros Dro.....	34
Ymddieithrio.....	35
Y Gofrestr Tai Cymdeithasol a'r Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy	39
Y Porth Cymorth Tai	41
Diffyg Manteisio – lleoedd gwag.....	42
Amserau Aros.....	43
Ymestyn y Cymorth.....	44
Demograffeg	44
Atgyfeiriadau a Wrthodwyd.....	44
Dadansoddiad o'r Bylchau	46

Canlyniadau'r Rhaglen Cymorth Tai.....	47
Anghenion Arweiniol.....	47
Ionawr i Fehefin 2020	47
Canlyniadau Allweddol.....	48
Gorffennaf i Ragfyr 2020.....	48
Canlyniadau Allweddol.....	49
Cyllid.....	50
Y Galw	51
Argymhellion.....	51
Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaethau a Rhanddeiliaid.....	52
Adborth yn dilyn Arolwg Defnyddwyr Gwasanaethau Gwent 2020 a 2021	52
Adborth gan Rhanddeiliaid Gwent 2020 a 2021	53
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Lleol.....	54
Adborth ar ôl Monitro'r Gwasanaeth	55
Arolwg o'r Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai	55
Y Gwasanaeth Atebion Tai	55
Ymchwil a Chyhoeddiadau Cenedlaethol	57
Atal cysgu ar y stryd yng Nghymru a'i leihau yn y tymor byr.....	57
Hydref 2019	57
Adroddiad i Weinidogion Cymru gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd Gorffennaf 2020.....	58
Cynllun Gweithredu ar gyfer Cysgu ar y Stryd Chwefror 2018	58
Strategaethau Allweddol Lleol a Rhanbarthol	59
Cynllun Llesiant Torfaen.....	59
Strategaeth Gwent ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018 - 2023	59
Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn- Cam 3: Cynllun Cyflenwi Torfaen (2015 - 2023).....	60
Strategaeth Ddigartrefedd Gwent 2018 - 2022	60
Nododd yr Adolygiad Digartrefedd nifer o feysydd sydd ag angen ledled Gwent a lywiodd ddatblygiad y strategaeth:	61
Cynllun Digartrefedd: Cam II.....	61
Crynodeb.....	62
Datganiad Anghenion	63
Y Galw Yn Awr ac yn y Dyfodol	63
Anghenion Rhanbarthol.....	66
Anghenion Statudol	66

Tabl Ffigurau


Ffigur 1 Map O Dorfaen	6
Ffigur 2 Yr Olygfa O Lofa Pwll Mawr	7
Ffigur 3 Golygfa o Dde Torfaen o'r Awyr	7
Ffigur 4 Poblogaeth Oedran Gweithio yn Nhorfaen	9
Ffigur 5 Statws Cyflogaeth Oedran Gweithio Trigolion	9
Ffigur 6 Anweithgarwch Economaidd yn Nhorfaen.....	10
Ffigur 7 Data Defnyddio Fanciau Bwyd ledled Gwent	10
Ffigur 8 Data Defnyddio Banciau Bwyd 2019 (Pawb)	11
Ffigur 9 Aelwydydd di-waith yn Nhorfaen	11
Ffigur 10 Lefelau Cymwysterau yn Nhorfaen.....	11
Ffigur 11 Canolrif yr Enillion Wythnosol yn Nhorfaen	12
Ffigur 12 Amcanion Llesiant Torfaen	14
Ffigur 13 Map yn Dangos Lefelau Amddifadedd yn Nhorfaen.....	15
Ffigur 14 Nifer y ACEHI mwyaf difreintiedig yn Nhorfaen	16
Ffigur 15 Yr ACEHI mwyaf difreintiedig yn Nhorfaen.....	16
Ffigur 16 Rhagamcanion Poblogaeth yn Nhorfaen	17
Ffigur 17 Plant Sy'n Derbyn Gofall	22
Ffigur 18 Y nifer o bobl 65+ oed y rhagwelir y byddant yn dioddef o ddementia	23
Ffigur 19 Y nifer o bobl dros 65 oed a ragwelir na fyddant yn gallu cwblhau tasg ddomestig.....	23
Ffigur 20 Salwch hirdymor sy'n cyfyngu	24
Ffigur 21 Anableddau Dysgu ymysg pobl dros 65 oed.....	24
Ffigur 22 Namau ar y golwg ymysg pobl dros 65 oed.....	25
Ffigur 23 Gofal Heb Dâl.....	26
Ffigur 24 Cyfraddau Troseddau Rhywiol am bob 1,000 o'r boblogaeth – YF 2015-2016	26
Ffigur 25 Nifer yr achosion o gam-drin domestig a gofnodwyd	27
Ffigur 26 Datganiad Digartrefedd Llywodraeth Cymru.....	28
Ffigur 27 Ethnigrwydd Ymgeiswyr	29
Ffigur 28 Ymgeiswyr Digartref 16 – 24 oed.....	29
Ffigur 29 Canlyniadau Digartrefedd yn ôl Oedran	30
Ffigur 30 Y Stoc Tai Cymdeithasol yn Nhorfaen.....	31
Ffigur 31 Cymwys, dan fygythiad digartrefedd, cymorth a ddarparwyd i atal (Adran 66)	31
Ffigur 32 Cymwys, digartref, yn amodol ar gymorth i ganfod llety (Adran 73	31
Ffigur 33 Adran 75 Rheswm dros Rhyddhau yn Llwyddiannus.....	32
Ffigur 34 Colli Llety Dros Dro	32
Ffigur 35 Niferoedd sy'n Cysgu ar y stryd	32
Ffigur 36 Llety Dros Dro yn Nhorfaen	34
Ffigur 37 Aelwydydd mewn Llety dros dro ar ddiwedd blwyddyn ariannoll	34
Ffigur 38 Aelwydydd a gafodd eu gosod mewn Llety Dros Dro	34
Ffigur 39 Lleoliadau Llety Dros Dro yn ôl y Math o Aelwyd	35
Ffigur 40 Lleoliadau Llety Dros Dro yn ôl Math o Aelwydydd Lluosog ac Unigoll.....	35
Ffigur 41 Lefelau Diffyg Ymgysylltu y Gwasanaeth Digartrefedd	36
Ffigur 42 Prisiau Tai ar Gyfartaledd yn Nhorfaen (2020)	37
Ffigur 43 Rhenti Sector Preifat (2019)	37
Ffigur 44 Rhenti wythnosol cyfartalog yn y stoc tai, a rhenti cymdeithasol yn ôl ardal, llety a math o ddarparwr	38
Ffigur 45 Amser aros ar gyfartaledd am Dai Cymdeithasol yn ôl maint ac ardal (Diwrnodau)	38
Ffigur 46 Amser Aros am Dai Cymdeithasol ar Gyfartaledd yn ôl Band Blaenoriaeth.....	38

Ffigur 47 Oed yr Ymgeiswyr ar Homeseeker	39
Ffigur 48 Y Stoc Tai Cymdeithasol	39
Ffigur 49 Cyflenwad Blynnyddol o Dai Fforddiadwy 2016 - 2021	40
Ffigur 50 Cyflenwi'r Gwasanaeth Grant Cymorth Tai	41
Ffigur 51 Atgyfeiriadau Uchaf am Gymorth	41
Ffigur 52 Atgyfeiriadau am Asesiad GCIMSLI	42
Ffigur 53 Diffyg Manteisio fesul Chwarter	42
Ffigur 54 Amserau Aros am Atgyfeiriad 2020/21	43
Ffigur 55 Atgyfeiriadau yn ôl Oedran	44
Ffigur 56 Atgyfeiriadau yn ôl Rhyw	44
Ffigur 57 Rhesymau dros Wrthod Atgyfeiriadau	44
Ffigur 58 Atgyfeiriadau a Wrthodwyd fesul Grŵp Cleientiaid	45
Ffigur 59 Atgyfeiriadau a Wrthodwyd fesul Oedran	45
Ffigur 60 Matrics Gwasanaeth	46
Ffigur 61 Anghenion Arweiniol – Ion-Fehefin	47
Ffigur 62 Angen Arweiniol yn ôl Canlyniad – Ion - Fehefin	48
Ffigur 63 Canlyniadau Mwyaf Perthnasol- Ion i Fehefin	48
Ffigur 64 Anghenion Arweiniol - Gorff i Rag	48
Ffigur 65 Angen Arweiniol yn ôl Canlyniad – Gorff i Rag	49
Ffigur 66 Canlyniadau Mwyaf Perthnasol – Gorff-Rag	49
Ffigur 67 Cyllid GCT	50
Ffigur 68 Cyfraddau troseddau rhyw am bob 1000 o bobl	51
Ffigur 69 Cwmwl Ymatebion	52
Ffigur 70 Rhwystrau i gymorth	55
Ffigur 71 Canlyniadau'r Cymorth	56
Ffigur 72 Amcanion llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen	59

Sir Torfaen

Mae Torfaen yn hen gwm diwydiannol yn ne-ddwyrain Cymru. Mae'n ffinio â dinas Casnewydd yn y de, sir Fynwy i'r dwyrain a siroedd Caerffili a Blaenau Gwent i'r gorllewin a'r gogledd-orllewin.

Ffigur 1 Map O Dorfaen




Mae Torfaen yn cwmpasu ardal 126 cilomedr sgwâr a dyma'r 3^{ed} fwrdeistref leiaf yng Nghymru; mae ganddi boblogaeth o tua 93,961 (SYG amcangyfrif canol blwyddyn 2019). Mae'r fwrdeistref yn cychwyn ym Mlaenau'r Cymoedd yng ngogledd y sir, trwy ddyffryn Afon Lwyd bron hyd at draffordd yr M4 yn y de.

Tair o brif ardaloedd Torfaen yw Blaenafon yn y gogledd, Pont-y-pŵl yn y canol a Chwmbwrân yn y de. Er eu bod yn weddol agos at ei gilydd, mae gan y tair tref eu cymeriad a'u hanghenion unigryw eu hunain.

Torfaen yw'r mwyaf dwyreiniol o gymoedd diwydiannol De Cymru, gydag aneddiadau yng ngogledd a chanolbarth y fwrdeistref wedi'u sefydlu'n wreiddiol i fanteisio ar yr adnoddau golosg, glo a haearn toreithiog anadnewyddadwy yn yr ardal.

Ffigur 2 Yr Olygfa O Lofa Pwll Mawr



Dros y 100 mlynedd diwethaf, wrth i'r diwydiannau trwm ddirywio, felly hefyd y gwnaeth ffyniant y cymunedau gogleddol, gan arwain at lefelau uwch o ddiweithdra, mwy o dlodi ac amddifadedd gwaeth o lawer.

Mae rhai o'r cymunedau heddiw dal i deimlo effeithiau'r dirywiad economaidd hwn, tra bod rhannau eraill o'r fwrdeistref wedi arallgyfeirio a datblygu eu heconomi a'u cysylltiadau trafnidiaeth, gan eu gwneud yn lleoedd poblogaidd a bywiog i fyw.

O ganlyniad, mae Torfaen wedi dod yn ardal sydd ag angen cymysg ac amrywiol, yn cynnwys ardaloedd o gyfoeth cymharol yn aml yn agos at ardaloedd o dlodi ac amddifadedd sylweddol.

Ffigur 3 Golygfa o Dde Torfaen o'r Awyr



Ffynonellau Data

Er mwyn llywio'r asesiad anghenion hwn, aethpwyd ati i ddadansoddi data o ystod eang o ffynonellau, er mwyn deall yn well y galwadau a'r pwysau y mae trigolion a chymunedau lleol yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

Mae ffynonellau'r data a ddefnyddiwyd yn yr asesiad yn cynnwys:

- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)
- Data Defnyddio Banciau Bwyd a Phrydau Ysgol am Ddim
- Asesiad Llesiant Torfaen
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)
- Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gwent 2018
- Data Digartrefedd a Thai Lleol
- Data Porth Cymorth Torfaen
- Canlyniadau'r Rhaglen Cymorth Tai
- Asesiad o Anghenion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Gwent
- Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaethau a Rhanddeiliaid
- Ymchwiliad a Chyhoeddiadau Cenedlaethol
- Strategaethau Lleol a Rhanbarthol Allweddol
 - Cynllun Llesiant Lleol,
 - Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)
 - Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn - Cam 3: Cynllun Cyflenwi Torfaen (2015 tan 2023)
 - Strategaeth Ddigartrefedd Gwent 2018
 - Cynlluniau Digartrefedd: Cam II

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae poblogaeth Torfaen yn amrywiol ac mae amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd y trigolion yn eang.

Gyda chysylltiadau da â dinasoedd Casnewydd, Caerdydd a Bryste o ran trafnidiaeth, yn enwedig yn ne'r fwrdeistref, mae Torfaen wedi dod yn lle poblogaidd i fyw ac mae'r economi leol wedi elwa. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, mae effaith dirywiad rhai diwydiannau trwm, yn enwedig ymhellach i'r gogledd dal i fodoli, gan arwain at ardaloedd o dlodi ac amddifadedd.

Mae'r data canlynol a gafwyd o wefan Ystadegau Marchnad Lafur Swyddogol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) Nomis, yn rhoi trosolwg o'r Farchnad Lafur bresennol yn Nhorfaen ac yn helpu i nodi rhai o'r anghenion sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Mae gan Dorfaen boblogaeth o tua 94,000, gyda phoblogaeth oedran gweithio o 57,100 o drigolion:

Ffigur 4 Poblogaeth Oedran Gweithio yn Nhorfaen

Poblogaeth 16 – 64 oed (2019)		
	Torfaen (Niferoedd)	Torfaen (%)
Pawb 16 – 64 oed	57,100	60.7
Dynion 16 – 64 oed	28,000	61.1
Menywod 16 – 64 oed	29,100	60.4

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth SYG – awdurdod lleol yn ôl band oedran pum mlynedd

Nodiadau: Mae'r % yn gyfran o gyfanswm y boblogaeth

Mae 42,900 o drigolion oedran gweithio yn Nhorfaen yn economaidd weithgar, gan gynnwys tua 1,600 sy'n ddi-waith ar hyn o bryd. Mae hyn yn cyfateb i 75% o'r boblogaeth oedran gweithio sydd naill ai'n gweithio neu'n chwilio am waith.

Ffigur 5 Statws Cyflogaeth Oedran Gweithio Trigolion

Cyflogaeth a diweithdra (Ion 2020 – Rhag 2020)		
	Torfaen (Niferoedd)	Torfaen (%)
Economaidd weithgar +	42,900	74.9
Yn Gweithio +	41,400	72.1
Gweithwyr +	36,600	64.2
Hunangyflogedig	4,400	7.3
Di-waith (Seiliedig ar Fodd) \$	1,600	3.8

Ffynhonnell: Arolwg poblogaeth flynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Maint y sampl yn rhy fach i gael rhagamcan dibynnol

+ - mae'r niferoedd yn dangos pobl 16 oed a hŷn. Mae'r % ar gyfer y rhai 16 - 64 oed

\$ - mae nifer a'r % yn dangos y rhai 16 oed a throsodd. % yn gyfran o'r economaidd weithgar

Fodd bynnag, mae 13,900 (25.1%) o drigolion oedran gweithio pellach yn economaidd anweithgar, a bydd hynny, heb os, yn creu heriau yn ei hun. Mae rhai trigolion yn economaidd anweithgar oherwydd eu bod yn fyfyrwyr neu oherwydd eu bod wedi ymddeol yn gynnar. Ond nid yw trigolion eraill yn gallu gweithio ac mae hyn yn parhau i achosi pryder.

Ffigur 6 Anweithgarwch Economaidd yn Nhorfaen

Anweithgarwch economaidd (Ion 2020 – Rhag 2020)		
	Torfaen (Lefel)	Torfaen (%)
Pawb		
Cyfanswm	13,900	25.1
Myfyriwr	2,200	23.5
Gofalu am Deulu /Cartref	1,400	10.2
Sâl Dros Dro	!	!
Sâl – Tymor Hir	5,800	42.1
Diobaith	!	!
Wedi Ymddeol	1,600	11.6
Arall	1,700	11.9
Am gael swydd	2,000	14.6
Ddim Eisiau Swydd	11,800	85.4

Ffynhonnell: Arolwg poblogaeth blynyddol y SYG

! Nid yw amcangyfrif ar gael gan fod maint y sampl yn ddadlennol

Nodiadau: mae'r niferoedd yn dangos y rhai 16 – 64 oed

Mae % yn gyfran o'r rhai sy'n economaidd anweithgar, ac eithrio'r cyfanswm sy'n gyfran o'r rhai 16 – 64 oed

Mae dros draean (42%) o'r holl drigolion economaidd anweithgar yn Nhorfaen yn dioddef o salwch hirdymor. Mae trigolion sy'n sâl yn y tymor hir ac yn methu â gweithio yn fwy tebygol o wynebu tlodi, a all waethygu eu hiechyd ymhellach ac arwain at anghenion cymorth eraill. Gall tlodi gael effeithiau negyddol ar aelwyd ac mae'r rhain wedi'u dogfennu'n dda ac maent yn cynnwys mwy o berygl o dlodi tanwydd, amodau tai gwael a diet gwael.

Gall tlodi tanwydd ac amodau eiddo arwain at amrywiaeth o broblemau iechyd, gan gynnwys cyflyrau anadlol neu gylchredol a chlefyd cardiofasgwlaidd, tra gall tlodi bwyd arwain at iechyd corfforol a meddyliol gwael. Amcangyfrifir bod **8%** o gartrefi yn Nhorfaen ar hyn o bryd yn wynebu tlodi tanwydd,¹ sy'n golygu bod y trigolion hyn yn gwario mwy na 10% o'u hincwm ar gostau ynni.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae tlodi bwyd wedi dod yn un o'r materion mwyaf enbyd yn y DU ac nid yw Torfaen yn eithriad. Yn 2017, dywedodd Ymddiriedolaeth Trussell fod mwy o bobl yn defnyddio banciau bwyd ledled Cymru a hynny o ganlyniad "*lefelau incwm annigonol a phroblemau o ran taliadau budd-daliadau*" lle mae Torfaen ar frig y rhestr o ran yr awdurdod lleol uchaf yng Ngwent a'r pedwerydd yng Nghymru, – y tu ôl i Gaerdydd, Sir Gaerfyrddin ac Abertawe.²

Ffigur 7 Data Defnyddio Fanciau Bwyd ledled Gwent

Nifer y Bobl a Gafodd Gymorth	Blaenau Gwent	Caerffili	Sir Fynwy	Casnewydd	Torfaen
2017-18	4275	5626	2509	3041	6320
2016-17	4405	5895	2358	2896	6527

Ffynhonnell: Ffigurau Diwedd Blwyddyn Banc Bwyd Ymddiriedolaeth Trussell

¹ Arolwg Cyflwr Tai Cymru (WHCS) 2017-18: Modelu amcangyfrifon Tlodi Tanwydd ardal leol a chrynodeb o'r canlyniadau, Ystadegau Cymru, <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-03/welsh-housing-conditions-survey-whcs-2017-18-local-area-fuel-poverty-estimates-modelling-and-results-summary-071.pdf> [Accessed 01.12.2020]

² Erthygl Free Press - Foodbank Usage in Torfaen on the Rise amid Concerns over Universal Credit Roll Out 17.11.17

Yn 2019, nododd y 'ffigrau diweddaraf' a gasglwyd gan fanciau bwyd lleol sy'n gweithredu yn Nhorfaen mai ychydig iawn o newid a fu yn y sefyllfa, gyda thua 6500 o bobl dal i fod yn derbyn parseli bwyd yn ystod y flwyddyn, ac roedd 2331 ohonynt yn blant.

Ffigur 8 Data Defnyddio Banciau Bwyd 2019 (Pawb)

Torfaen	Ceisiadau	Nifer a Dderbyniodd	Plant
Gogledd	506	1295	500
Canol	1093	2502	933
De	1205	2649	898
Cyfanswm	2804	6446	2331

Ffynhonnell: Banciau Bwyd Lleol Torfaen

Arwydd arall o dlodi o fewn ardal yw nifer y plant sydd â hawl i brydau ysgol am ddim (PYDd). Mae PYDd yn destun prawf modd, gan gymryd i ystyriaeth yr incwm neu fudd-daliadau a dderbynnir gan rieni / gwarcheidwaid y disgybl. Yn 2016, nododd asesiad llesiant Torfaen fod 17% o ddisgyblion ysgol yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ond pan ddadansoddwyd y ffigurau ysgol yn fwy manwl roedd y ffigur hwn wedi cynyddu i bron 23%.

Gall y rhesymau dros dlodi bwyd amrywio, ond mae'n anochel y bydd incwm isel, diweithdra a dibyniaeth ar fudd-daliadau yn ffactorau. Yn ystod 2019, nododd y SYG bod 5,500 o aelwydydd yn Nhorfaen (yn cynnwys rhywun o oedran gweithio) a oedd yn cael eu cyfrif yn aelwydydd di-waith; canfu dadansoddiad manylach fod 2700 o'r aelwydydd di-waith hyn yn cynnwys plant.³

Ffigur 9 Aelwydydd di-waith yn Nhorfaen

Aelwydydd Di-waith (Ion – Rhag 2019)	
	Torfaen
Nifer yr Aelwydydd Heb Waith	5,500
Canran yr Aelwydydd Sydd Heb Waith	19.6
Nifer y Plant mewn Cartrefi Sy'n Ddi-waith	#
Canran y Plant Sydd mewn Cartrefi Sy'n Ddi-waith	#

Ffynhonnell: Arolwg poblogaeth blyneddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol – aelwydydd wedi'u cyfuno yn ôl statws gweithgarwch economaidd

Maint y sampl yn rhy fach i amcangyfrif yn ddibynadwy

Nodiadau: Mae'n cynnwys yr aelwydydd hynny sydd ag o leiaf un person 16 – 64 oed yn unig

Mae plant yn cyfeirio at bob plentyn o dan 16 oed

Rheswm posibl dros nifer yr aelwydydd di-waith yn Nhorfaen yw diffyg cymwysterau. Mae'r tabl isod yn dangos lefelau cymwysterau trigolion oedran gweithio yn Nhorfaen. Nid oes gan 4600 o drigolion unrhyw gymwysterau ar hyn o bryd.

Ffigur 10 Lefelau Cymwysterau yn Nhorfaen

Cymwysterau (Ion 2020 -Rhag 2020)		
	Torfaen (Lefel)	Torfaen (%)
NVQ4 Ac Uwch	16,600	30.1
NVQ3 Ac Uwch	29,000	52.4
NVQ2 Ac Uwch	41,500	75.1
NVQ1 Ac Uwch	48,200	87.2
Cymwysterau Eraill	2,500	4.5
Dim Cymwysterau	4,600	8.3

Ffynhonnell: Arolwg poblogaeth blyneddol SYG

³ Arolwg poblogaeth blyneddol SYG - aelwydydd yn ôl statws gweithgarwch economaidd cyfun - Aelwydydd Di-waith (Ionawr-Ragfyr 2019) Pobl 16 – 64 oed

<https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157402/report.aspx?town=torfaen> [26.11.2020]

Byddai diffyg sgiliau a chymwysterau yn cyfyngu'n sylweddol ar allu trigolion i gael hyd i waith, a gallai fod yn ffactor sy'n cyfrannu at nifer yr aelwydydd di-waith yn yr ardal.

Eto i gyd, er bod pocedi o amddifadedd ac ardaloedd o angen, mae enillion ymhlith rhai trigolion yn Nhorfaen yn weddol gadarnhaol. Mae'r tabl isod yn cofnodi canolrif enillion trigolion yn Nhorfaen, sydd ar hyn o bryd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ffigur 11 Canolrif yr Enillion Wythnosol yn Nhorfaen

Enillion yn ôl man preswyl (2020)		
	Torfaen (Punnoedd)	Cymru (Punnoedd)
Tâl Wythnosol Gros	545.8	541.7
Dynion-Gweithio Llawn Amser	564.4	562.4
Menywod – Gweithio Llawn Amser	490.4	515.4
Cyflog yr awr – Heb Gynnwys Goramser		
Gweithwyr llawn amser	14.06	13.83
Dynion – Gweithio llawn amser	14.75	14.12
Menywod- gweithio llawn amser	13.07	13.49

Ffynhonnell: Arolwg blynyddol ONS o oriau ac enillion – dadansoddiad o drigolion

Nodiadau: Enillion canolrif mewn punnoedd ar gyfer gweithwyr sy'n byw yn yr ardal.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod, er mai £545.80 yw'r canolrif cyflog, bydd llawer o drigolion yn ennill llai na'r swm hwn.

Pwyntiau Allweddol:

- Mae diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau statudol a gwirfoddol sy'n cefnogi'r trigolion mwyaf bregus a difreintiedig yn Nhorfaen.
- Mae sgiliau isel a phroblemau iechyd hirdymor yn cyfyngu ar gyfleoedd i drigolion gael hyd i hyfforddiant a gwaith, gan achosi tlodi i lawer o aelwydydd.
- Gall tlodi tanwydd arwain at dai gwael a pheryglon iechyd sy'n gysylltiedig â hyn, gan roi mwy o bwysau ar wasanaethau iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai.
- Mae tlodi bwyd yn parhau i fod yn faes angen yn Nhorfaen

Asesiad Llesiant Torfaen

Nododd asesiad llesiant Torfaen nad oes dwy gymuned yn Nhorfaen yr un fath, ond bod y cymunedau'n lleoedd cymhleth a deinamig, sydd â'u cyfred eu hunain o brofiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Nododd yr asesiad fod anghydraddoldeb cynyddol ledled Torfaen, sy'n effeithio ar bob agwedd ar les. Ochr yn ochr â phocedi o amddifadedd, mae ardaloedd lle mae llesiant yn dda, ond bydd rhai aelwydydd yn yr ardaloedd hyn dal i fod yn wynebu heriau.

Daeth rhai themâu allweddol i'r amlwg yn dilyn yr asesiad llesiant a fydd yn helpu i lywio'r asesiad hwn:

- Disgwylir i nifer y bobl ifanc 0 -25 oed ostwng dros yr 20 mlynedd nesaf, tra yn ystod yr un cyfnod, disgwylir i nifer y trigolion dros 65 oed gynyddu, a disgwylir i nifer y rhai 85 oed ddyblu⁴. Mae hyn yn debygol o arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio, y bydd angen ei ystyried wrth gynllunio gwasanaethau.

⁴ Rhagamcanion ar sail poblogaeth (2014), Llywodraeth Cymru

- Mae'r cyflog wythnosol yn Nhorfaen, ar gyfartaledd yn is nag ydyw yng Nghymru⁵, mae 1 ymhob 5 cartref yn wynebu amddifadedd materol⁶ ac mae Torfaen yn ardal sy'n teimlo effaith gynyddol y rhaglen diwygio lles, oherwydd nifer y contractau cyflog isel, oriau isel, sy'n arwain at fwy o bobl yn symud tuag at dlodi.
- Mae gan bobl sy'n byw yn Nhorfaen lefelau is o gymwysterau a sgiliau (Swyddfa Ystadegau Gwladol) o gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru ⁷ ac mae gan Dorfaen gyfran uchel o drigolion sy'n cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus a chynhyrchu⁸.
- Roedd canran y plant a oedd yn byw mewn cartrefi di-waith yn Nhorfaen yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru rhwng 2010 a 2014⁹. Mae yna ganran uwch o blant yn byw mewn teuluoedd incwm isel yn Nhorfaen ac mae 17.4% o ddisgyblion ysgol yn Nhorfaen yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim¹⁰.
- Cymhareb pris tai i enillion yn Nhorfaen yw 5:1, mae'r sector rhentu preifat yn Nhorfaen yn gymharol fach (8.6%) ac mae'r galw am dai cymdeithasol yn uwch o lawer na'r cyflenwad sydd ar gael.
- Nid yw Disgwyliad Oes yn gyfartal ar draws Torfaen, gyda thua 7 mlynedd o wahaniaeth rhwng disgwyliad oes pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yn Nhorfaen.¹¹ Yn ôl Arolwg Iechyd Cymru (2014/15), mae dros hanner y boblogaeth sy'n oedolion yn Nhorfaen yn adrodd eu bod yn cael triniaeth am salw meddwl neu gorfforol difrifol, y mae'r mwyafrif ohonynt yn debygol o fod yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

Neges allweddol a ddaeth i'r amlwg yn dilyn yr asesiad llesiant oedd ehangiad anghydraddoldeb. Llwyddodd yr asesiad i nodi lleoliad y cymunedau mwyaf difreintiedig yn Nhorfaen a chadarnhaodd y wybodaeth bresennol y bydd pobl yn yr ardaloedd hyn yn aml yn wynebu lluo o anawsterau. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn ardaloedd llai difreintiedig, mae teuluoedd ac unigolion yn cael trafferth gydag iechyd gwael, cymwysterau cyfyngedig neu ddiffyg cymwysterau a lefelau diweithdra neu incwm isel, sydd wedi golygu bod eu llesiant o ansawdd is nag eraill o'u cwrmpas.

Er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â'r materion a nodwyd yn yr asesiad llesiant, datblygwyd y 7 amcan a ganlyn:

⁵ Tâl wythnosol gros gwrywod o gymharu â menywod. Ffynhonnell: Arolwg blynyddol SYG o oriau ac enillion - dadansoddiad o'r gweithle, 2015, trwy NOMIS.

⁶ Uned Ddata Cymru (2016). Deall Lles Lleol: Crynodeb o'r Data, Hydref 2016

⁷ Uned Ddata Cymru (2016). Deall Lles Lleol: Crynodeb o'r Data, Hydref 2016

⁸ Cyflogaeth gweithlu yn ôl Diwydiant - Ffynhonnell KS605EW, Cyfrifiad 2011

⁹ Uned Ddata Cymru (2016). Deall Lles Lleol: Crynodeb o'r Data, Hydref 2016

¹⁰ StatsCymru 2016, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC)

¹¹ Arsyllfa ICC gan ddefnyddio PHM & MYE (SYG), ATC a MALIC 2014 (Llywodraeth Cymru)

Ffigur 12 Amcanion Llesiant Torfaen

1	2	3	4	5	6	7
Datblygu rhwydwaith o ardaloedd naturiol sydd wedi'i gysylltu, ac sy'n gweithio ar lefel weithredol, sy'n cefnogi anghenion llesiant poblogaethau lleol, nawr ac yn y dyfodol.	Datblygu ymatebion addas a lliniaru, ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd.	Rhoi'r cychwyn gorau i blant a phobl ifanc mewn bywyd.	Cefnogi ffyrdd iach o fyw a galluogi pobl i heneiddio'n dda.	Trechu patrymau tlodi ymhlith y cenedlaethau a datblygu gwydnwch economaidd.	Gwella sgiliau lleol trwy gynllunio'r gweithlu, hyfforddiant, prentisiaethau a chyfleoedd i wirfoddoli.	Creu cymunedau diogel, hyderus a hybu cydlyniant cymunedol.

Pwyntiau Allweddol:

- Mae anghydraddoldeb yn Nhorfaen yn ehangu.
- Mae rhai materion allweddol yn codi o'r asesiad a fydd yn effeithio ar les trigolion. Mae'r rhain yn cynnwys rhagamcanion poblogaeth, lefelau cyflogaeth, incwm, cymwysterau, amddifadedd ac iechyd.
- Nid yw lleoliadau daearyddol yn pennu lefelau llesiant trigolion Torfaen, ond maent yn amrywio ar draws y fwrdeistref. O ganlyniad, bydd ansawdd llesiant is gan rhai trigolion sy'n byw mewn ardaloedd llai difreintiedig o gymharu â'r rhai sy'n byw o'u cwrmpas


Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 (MALIC)

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc) yn categoreiddio amddifadedd yn ôl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is; ardaloedd daearyddol sy'n cynnwys tua 1500 o bobl. Mae gan y mynegai barth cyffredinol, yn ogystal â pharthau eraill sy'n edrych ar ffactorau mwy penodol fel incwm, iechyd ac addysg.

Mae MALIC 2019 yn dangos bod Torfaen yn cynnwys pocedi o amddifadedd, gyda rhai ACEHI yn cael eu hadnabod ymysg rhai o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Yn y maes cyffredinol, mae 3 o ACEHI Torfaen yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, tra bod 19 yn yr 20% mwyaf difreintiedig. Mae'r map a ganlyn yn rhestru lefelau amddifadedd ym mhob ACEHI yn Nhorfaen (yn seiliedig ar y parth cyffredinol)¹²:

Ffigur 13 Map yn Dangos Lefelau Amddifadedd yn Nhorfaen



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

Mae'r map yn dangos bod lefelau uchel o amddifadedd mewn rhai rhannau o ogledd a chanol Torfaen, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oes diwydiant trwm erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod 2 o'r 3 ACEHI mwyaf difreintiedig yn Nhorfaen wedi'u lleoli yn ne'r fwrdeistref.

Ystyrir yn aml mai De Torfaen yw'r rhan fwyaf llewyrchus o'r fwrdeistref, lle mae prisiau tai yn gyffredinol uwch, cysylltiadau trafnidiaeth yn well a chyfleoedd cyflogaeth yn fwy. Fodd bynnag, mae'r boblogaeth hefyd yn fwy ac felly mae'r galw am wasanaethau hefyd yn fwy. Felly, ni ellir priodoli amddifadedd i un neu fwy o ardaloedd daearyddol yn Nhorfaen; mae lefelau angen yn amrywio ar draws y fwrdeistref gyfan.

Pan archwilir parthau eraill o fewn MALIC, mae'n dangos bod gan Dorfaen sawl maes sy'n peri pryder. Mae Ffigur 14 yn nodi faint o ACEHI yn Nhorfaen (ar draws pob parth) sydd wedi'u rhestru yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac yna faint sydd yn yr 20% mwyaf difreintiedig.

¹² <https://wimd.gov.wales/geography/la/W06000020?lang=en#&min=0&max=10&domain=overall>
[Cyrchwyd 01.12.2020]

Ffigur 14 Nifer y ACEHI mwyaf difreintiedig yn Nhorfaen

ACEHI mwyaf difreintiedig yn Nhorfaen		
Parthau	10%	20%
Cyffredinol	3	19
Incwm	5	14
Cyflogaeth	3	13
Iechyd	5	18
Addysg	8	17
Defnyddio Gwasanaethau	0	3
Diogelwch Cymunedol	9	23
Amgylchedd Ffisegol	4	8
Tai	0	8

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

Wrth ddadansoddi'r parthau ymhellach gwelwyd hefyd fod yr un ACEHI yn ymddangos ar fwy nag un achlysur mewn llawer o achosion.

Cafodd 19 ACEHI eu graddio fel rhai sydd yn yr 20% mwyaf difreintiedig o fewn y maes cyffredinol, ond roedd llawer yn ymddangos eto yn y parthau incwm, cyflogaeth, iechyd ac addysg, gan nodi bod ardaloedd o amddifadedd yn aml yn wynebu heriau lluosog ac nad ydynt yn gyfyngedig i un neu ddau o broblemau.

Mae'r tabl canlynol yn rhestru 6 ACEHI sydd wedi'u rhestru yn yr 20% mwyaf difreintiedig yn gyffredinol, ond sy'n ymddangos eto mewn 5 neu 6 maes arall.

Ffigur 15 Yr ACEHI mwyaf difreintiedig yn Nhorfaen

ACEHI	Nifer yr achlysuron
Cwm-ynys-cou	6
Pontnewydd 1	6
Dôl werdd 1	5
Sain Derfel 1	5
Trefddyn 1	5
Cwmbrân Uchaf 1	5

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

Mae dadansoddiad manylach wedi'i gynnal yn ddiweddar ar nodweddion gwarchodedig a MALIC. Canfuwyd bod unigolion â nodweddion penodol ledled Cymru yn fwy tebygol o fyw mewn ardaloedd difreintiedig nag eraill.

- Mae merched o bob grŵp oedran yn fwy tebygol o fyw mewn ardaloedd difreintiedig na gwrywod; Mae 52.1% o'r rhai sy'n byw yn y 10% ACEHI mwyaf difreintiedig yn fenywod.
- Mae pobl iau yn fwy tebygol na phobl hŷn o fyw yn y 10% ACEHI mwyaf difreintiedig; mae tua 21% o bobl 24 oed neu iau yn byw yn yr 20% o ACEHI mwyaf difreintiedig Cymru o gymharu â thua 14% o'r rhai 65 oed neu hŷn
- Mae pobl anabl yn fwy tebygol o fyw yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig na phobl nad ydynt yn anabl (13.8% o gymharu ag 8.1% yn y drefn honno). Mae pobl anabl yn cyfrif am 1 o bob 3 o'r holl bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn.
- Mae pobl sengl fwy na dwywaith yn fwy tebygol o fyw yn y 10% ACEHI mwyaf difreintiedig o gymharu â'r rhai sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil (12.1% a 5.8% yn y drefn honno). Mae bron i hanner yr holl bobl sy'n byw yn y 10% o'r ACEHI mwyaf difreintiedig yn sengl.

Er bod y Ffigurau hyn yn ymwneud â Chymru gyfan, maent yn helpu i dynnu sylw at rhai meysydd allweddol sy'n peri pryder wrth ddadansoddi lefelau angen ac amddifadedd yn Nhorfaen.

Pwyntiau Allweddol:

- Mae amddifadedd yn aml yn ymgorffori ystod o faterion, gan arwain at anghenion lluosog neu gymhleth.
- Mae amddifadedd yn effeithio ar bobl mewn gwahanol rannau o Dorfaen ac nid yw'n gyfyngedig i ardaloedd daearyddol penodol. Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd sy'n profi mwy o arwyddion o amddifadedd.
- Mae rhai grwpiau mewn cymdeithas yn fwy tebygol o fyw mewn ardaloedd o amddifadedd nag eraill, gan gynnwys pobl ifanc, aelwydydd sengl, pobl ag anabledd a menywod.

Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gwent

Cyhoeddodd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent Asesiad o Anghenion Poblogaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant cyntaf y rhanbarth, a oedd yn nodi lefel yr angen ar draws y rhanbarth, ymateb y rhanbarth i'r angen a nodwyd a'r camau yr oedd angen eu cymryd i ddiwallu'r anghenion hynny.

Roedd yr asesiad yn canolbwyntio ar anghenion ystod eang o'r boblogaeth er mwyn deall y galw yn well, yn awr ac yn y dyfodol, a, lle'r oedd angen gwaith pellach. Ystyriodd yr asesiad y grwpiau allweddol a ganlyn:

- Plant a Phobl Ifanc
- Pobl Hŷn
- Iechyd a Phobl ag Anableddau Corfforol
- Pobl ag Anableddau Dysgu ac Anhwylderau Sbectwm Awtistiaeth
- Iechyd meddwl
- Nam ar y Synhwyrâu
- Gofalwyr sydd angen cymorth
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae gan Gymru boblogaeth sy'n heneiddio, a fydd, heb os, yn cyflwyno heriau ac yn dod â phwysau ychwanegol. Disgwylir i ragamcanion poblogaeth rhwng 2011 a 2036 yn ardal Bwrdd Iechyd Athrofaol Aneurin Bevan gynyddu 4.1%.¹³ Tra bu gostyngiad o 2,700 (1%) yn y boblogaeth o dan 16 oed rhwng 2005 a 2014, o 114,100 i 108,300.¹⁴

Pan fydd rhagamcanion poblogaeth yn cael eu dadansoddi ar lefel leol, disgwylir y bydd nifer y bobl dros 65 oed yn Nhorfaen wedi cynyddu 15% erbyn 2028, tra rhagwelir y bydd nifer y bobl 16 – 64 oed yn gostwng fymryn.

Ffigur 16 Rhagamcanion Poblogaeth yn Nhorfaen

Torfaen	2018	2028	Newid
16 i 64 oed	56,826	56,482	-344
65 oed a hŷn	18,973	21861	2888

Ffynhonnell: Rhagamcanion seiliedig ar 2018 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru ¹⁵

¹³ Adroddiad ar Asesiad Anghenion Poblogaeth Rhanbarth Gwent 2018

¹⁴ Adroddiad ar Asesiad Anghenion Poblogaeth Rhanbarth Gwent 2018

¹⁵ <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2018-based/populationprojections-by-localauthority-year> [Cyrchwyd 02.12.2020]

Nid oedran yw'r unig ffactor y mae angen ei ystyried wrth ystyried lefelau angen ar draws poblogaeth, gydag ystod o ffactorau'n effeithio ar iechyd a lles cyffredinol unigolyn.

Fel rhan o'r asesiad o anghenion y boblogaeth, ymgynghorwyd yn helaeth ag unigolion sydd â nodwedd warchodedig a'r grwpiau hynny a all gael eu gwthio i'r cyrion weithiau, i nodi eu hanghenion a rhai o'r materion craidd y maent yn eu hwynebu.

Cyn-filwyr	Teithwyr Sipsiwn (TS)	Grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME).	Ceiswyr Lloches, Ffoaduriaid a Mudwyr	Y Gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LHDT).	Plant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuenctid	Pobl mewn sefydliadau diogel a'u teuluoedd
Cael hyd i dai addas ac atal digartrefedd.	Mae cyfraddau marwolaethau babanod hyd at 5 gwaith yn uwch ymhlith y grŵp lleiafrifol hwn o gymharu â'r gyfradd genedlaethol.	Mae gan rai grwpiau ethnig gyfraddau uwch o rai cyflyrau iechyd.	Cynyddodd nifer y ceiswyr lloches a ffoaduriaid pan ddaeth Cymru yn ardal wasgaru.	Mae defnyddio cyffuriau'n anghyfreithlon ymhlith pobl LHD o leiaf 8 gwaith yn uwch nag yn y boblogaeth gyffredinol	Gall fod â mwy o anghenion iechyd a lles na phlant eraill o'r un oedran.	Yn aml mae angen cymorth ychwanegol ar gyn-droseddwyr i atal anghenion rhag dod i'r amlwg.
Cefnogi cyn-filwyr i fyd gwaith.	Mae cyfraddau imiwneiddio ymhlith plant ST yn isel o gymharu â gweddill y boblogaeth. Defnydd o wasanaethau iechyd yn llawer is na gweddill y boblogaeth.	Yn fwy tebygol o ddod o deuluoedd incwm isel, dioddef amodau byw gwaeth ac ennill lefelau is o gymwysterau addysgol.	Mae nifer y ceisiau am loches yn 2016 wedi gweld cynnydd o 8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.	Mae tua 25% o bobl LHD yn nodi lefel o ddibyniaeth ar alcohol.	Yn aml yn wynebu anawsterau sydd wedi ymwreiddio, e.e. gwahardd o'r ysgol, perthnasoedd darniog, dulliau gwael neu niweidiol wrth fagu plant.	Cael hyd i gyfleusterau gofal iechyd
Cael gafael ar gyngor ariannol priodol a gwybodaeth am fudd-daliadau perthnasol.	Cyfraddau damweiniau yn uchel, yn uniongyrchol gysylltiedig â'r amodau peryglus ar lawer o safleoedd, gyda safonau diogelwch gwael ac amodau afiach.		Mae darpariaeth gwasanaeth wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, gan effeithio'n andwyol ar iechyd a lles pobl.	Mae bron i hanner yr unigolion LHDT yn ysmegu, o gymharu â chwarter eu cyfoedion heterorywiol	Mae llawer yn hysbys i ofal cymdeithasol yn aml ac nid ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.	Cael hyd i wasanaeth iechyd meddwl a gofal iechyd

Cael hyd i wasanaethau iechyd a chymorth.	Lefelau is o fwydo ar y fron ymysg teithwyr.		Dim modd o droi at arian a materion diogelu e.e. mae trais ar sail anrhydedd a masnachu mewn pobl yn themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg.	Mewn perygl uwch o anhwylder meddwl, syniadaeth hunanladdol, camddefnyddio sylweddau a hunan-niweidio'n fwriadol.	Mae llesiant hefyd yn golygu bod plant yn teimlo'n ddiogel am eu hunaniaeth bersonol a'u diwylliant.	Camddefnyddio Sylweddau gan gynnwys ysmygu
Cefnogi cyn-filwyr sydd wedi bod yn y system cyfiawnder troseddol.	Cyfraddau uwch o gyflyrau meddygol o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, e.e. erthyliad naturiol, clefyd cardiofasgwlaidd, iselder.		Ymddengys mai diffyg, neu fynediad cyfyngedig at wybodaeth a chymorth tenantiaeth yw'r themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg.	Dywedodd 41% o bobl draws eu bod wedi ceisio lladd eu hunain o gymharu ag 1.6% o'r boblogaeth gyffredinol.	Mae llesiant yn ymwneud ag atgyfnerthu ffactorau amddiffynnol a gwella eu gallu i wrthsefyll ffactorau sy'n cael effaith andwyol ar eu datblygiad hirdymor.	Iechyd y geg
Unigrwydd ac arwahanrwydd.	Mae yfed alcohol yn aml yn cael ei ddefnyddio fel strategaeth ymdopi, ac adroddir yn eang ar y defnydd o gyffuriau ymhlith pobl ifanc ST.		Mae cyfathrebu da yn hanfodol a phennu'r iaith a'r cymorth sydd ar gael,		Dylai rhoi sylw i'w hanghenion iechyd a llesiant helpu i leihau anghydraddoldebau a'r perygl o aildroseddu ymysg pobl ifanc.	Clefyd Heintiau
Mynediad parod at wasanaethau i sicrhau bod modd o adnabod a thrin yn gynnar (iechyd corfforol a meddwl).	Credoau diwylliannol, e.e. dylid cadw problemau iechyd o fewn yr uned teulu estynedig.		Angen mwy o eiriolaeth a chymorth fel y bo'r angen i fudwyr.			Cymorth ar ôl cael eu rhyddhau


Darparu cymorth i deulu ehangach cyn-filwyr.	Wynebu heriau o ran cael hyd i wasanaethau oherwydd lleoliad y safle, mynediad at gludiant, methu â deall yr hyn y mae ganddynt hawl i'w ddefnyddio neu sut i gael hyd iddynt.		Diffyg dull strategol o ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau. Diffyg cydgysylltu rhwng gwasanaethau.			
	Disgwyliadau isel o ran eu hiechyd a'u disgwyliad oes.					

Mae'r adran ganlynol yn edrych ar rai o'r themâu craidd a gafodd sylw wrth fynd ati i asesu anghenion y boblogaeth, a rhai o'r meysydd angen allweddol.

Plant a Phobl Ifanc

Mae'r siart a ganlyn yn manylu ar gyfradd y plant sy'n derbyn gofal am bob 10,000 o'r boblogaeth o dan 18 oed, ar draws rhanbarth Gwent dros y cyfnod 2012 i 2016 a sut mae Torfaen yn cymharu â'i hardaloedd awdurdod lleol cyfagos.

Ffigur 17 Plant Sy'n Derbyn Gofal



Ffynhonnell: Adroddiad ar Asesiad o Anghenion Poblogaeth Rhanbarth Gwent 2018

Blaenau Gwent welodd y cynnydd mwyaf dros y cyfnod, tra bod y gostyngiadau mwyaf yng Nghaerffili a Thorfaen.

Nododd yr asesiad fod angen mwy o gydweithio wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau i blant ag anghenion amrywiol ac y byddai ymateb amlasiantaeth yn arwain at ganlyniadau gwell. Rhagwelir y bydd y ffordd hon o weithio yn helpu i gyflawni:

- Ffocws ar atal argyfyngau a chymorth yn gynharach yn eu datblygiad.
- Cymorth yn nes at eu cymuned eu hunain
- Ffocws ar ddiwallu anghenion plant mewn ffordd fwy integredig, ac wedi'i gomisiynu ar y cyd ar draws ieuchyd a gofal cymdeithasol


Pobl Hŷn

Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn faes sy'n peri pryder, oherwydd fe ddaw â heriau sy'n gysylltiedig ag oedran; mwy o achosion o gyflyrau cronig, dementia a phroblemau symudedd, sydd oll yn rhoi pwysau ar yr awdurdod lleol a gwasanaethau statudol eraill.

Amcangyfrifir y bydd nifer y trigolion yn Nhorfaen a fydd yn wynebu dementia yn codi yn y dyfodol o tua 1400 o drigolion dros 65 oed, i tua 2100 erbyn 2035;¹⁶ cynnydd o 50%. Mae'n anochel y bydd twf mor ddramatig yn rhoi pwysau ar gyllidebau presennol, a bydd angen mwy o wasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â dementia a gwasanaethau gofal ieuchyd, i ateb y galw.


¹⁶ <http://www.gwentrbp.wales/older-people> [Cyrchwyd 03.12.2020]

Ffigur 18 Y nifer o bobl 65+ oed y rhagwelir y byddant yn dioddef o ddemencia



Maes twf pellach yw nifer y bobl dros 65 oed na fyddant bellach yn gallu cwblhau o leiaf un dasg ddomestig ar eu pen eu hunain. Disgwylir i hyn gynyddu o 8000 o bobl i tua 11,000 erbyn 2035.¹⁷

Ffigur 19 Y nifer o bobl dros 65 oed a ragwelir na fyddant yn gallu cwblhau tasg ddomestig



Wrth i'r boblogaeth barhau i heneiddio, mae'r galw yn debygol o amrywio yn ogystal â chynyddu, gan roi mwy o bwysau ar yr awdurdod lleol i gael hyd i atebion o ran darparu llety addas a chymorth, i ategu at waith gwasanaethau eraill sy'n ceisio diwallu anghenion trigolion hŷn.


Iechyd a Phobl ag Anableddau Corfforol

Amcangyfrifir y bydd nifer y bobl yn Nhorfaen y rhagwelir y bydd ganddynt salwch hirdymor sy'n cyfyngu, yn cynyddu erbyn 2035, ond o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Ngwent,

¹⁷ <http://www.gwentrpb.wales/older-people> [Cyrchwyd 03.12.2020]

disgwylir i'r cynnydd hwn fod yn fwy graddol. Fodd bynnag, mae sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod ar gael ac yn hygyrch i gefnogi byw'n annibynnol yn hanfodol

Ffigur 20 Salwch hirdymor sy'n cyfyngu




Ffynhonnell: Adroddiad ar Asesiad o Anghenion Poblogaeth Rhanbarth Gwent 2018

Pobl ag Anableddau Dysgu ac Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth

Rhagwelir y bydd pob awdurdod lleol yn gweld cynnydd yn nifer y bobl ag anabledd dysgu ac, ac eithrio Blaenau Gwent, rhagwelir y bydd pob awdurdod lleol yn gweld cynnydd yn nifer y bobl 18+ oed a fydd ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (ASA).

Ffigur 21 Anableddau Dysgu ymysg pobl dros 65 oed



Ffynhonnell: Adroddiad ar Asesiad o Anghenion Poblogaeth Rhanbarth Gwent 2018

Iechyd Meddwl

Mae'r Ffigurau canlynol gan Lywodraeth Cymru yn rhoi cipolwg ar Iechyd Meddwl ledled Cymru ¹⁸:


- Bydd 1 o bob 4 oedolyn yn dioddef problemau iechyd meddwl ar ryw adeg yn ystod eu hoes.
- Bydd gan 2 o bob 100 o bobl salwch meddwl difrifol e.e. sgitsoffrenia neu anhwylder deubegwn.
- Mae gan 1 o bob 10 plentyn rhwng 5 ac 16 oed broblem iechyd meddwl ac mae gan lawer mwy ohonynt broblemau ymddygiad.
- Bydd gan tua 50% o bobl sy'n mynd ymlaen i gael problemau iechyd meddwl difrifol symptomau erbyn eu bod yn 14 oed a llawer ohonynt yn llawer iau.
- Bydd dementia yn effeithio ar 1 o bob 14 o bobl dros 65 ac 1 o bob 6 dros 80 oed.
- Mae gan 9 o bob 10 carcharor broblem iechyd meddwl a/neu broblem camddefnyddio sylweddau y gellir gwneud diagnosis ohoni.

Yn Nhorfaen, yn yr un modd ag ardaloedd eraill, mae'r galw am wasanaethau iechyd meddwl yn parhau i fod yn uchel ac ni all un sefydliad yn unig ddiwallu anghenion pobl, ond drwy ddull cydunol, amlasiantaeth.

Nam Synhwyrdd

Bu gostyngiad o 27% yn nifer y bobl dros 65 oed yn Nhorfaen â nam ar eu golwg rhwng 2011 a 2015.

Ffigur 22 Namau ar y golwg ymysg pobl dros 65 oed



Ffynhonnell: Adroddiad ar Asesiad o Anghenion Poblogaeth Rhanbarth Gwent 2018


¹⁸ Llywodraeth Cymru

Gofalwyr sydd angen cymorth

Mae'r siart yn dangos y nifer o bobl 65 oed neu hŷn y rhagwelir y byddant yn darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl dros y cyfnod 2013 i 2035. Rhagwelir y bydd cynnydd yn y nifer ym mhob ardal awdurdod lleol ar draws rhanbarth Gwent.

Mae un o'r camau ymyrryd cynnar a argymhellwyd gan yr asesiad o anghenion y boblogaeth yn cynnwys ymgysylltu â rhwydweithiau cymunedol anffurfiol drwy'r rolau 'cysylltydd cymunedol', er mwyn canfod gofalwyr cyn gynted â phosibl a'u cyfeirio at wasanaethau cymorth a grwpiau cymheiriad.

Ffigur 23 Gofal Heb Dâl




Ffynhonnell: Adroddiad ar Asesiad o Anghenion Poblogaeth Rhanbarth Gwent 2018

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae'r siartiau a'r tablau a ganlyn yn rhoi cipolwg o ddigwyddiadau ledled Gwent yn 2015/16. Mae ffigur 24 yn cofnodi cyfradd y troseddau rhywiol am bob 1,000 o'r boblogaeth yn 2015-16 ledled Gwent, gyda Thorfaen a Chasnewydd yn profi'r lefelau uchaf; 1.64 am bob 1,000 o gymharu â chyfartaledd Gwent o 1.54 am bob 1,000 o'r boblogaeth. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru, sy'n 1.69 am bob 1,000 o'r boblogaeth

Ffigur 24 Cyfraddau Troseddau Rhywiol am bob 1,000 o'r boblogaeth – YF 2015-2016



Ffynhonnell: Adroddiad ar Asesiad o Anghenion Poblogaeth Rhanbarth Gwent 2018

Mae'r siart a ganlyn yn dangos nifer yr achosion a gofnodwyd o gam-drin domestig a thrafodaethau rhwng Heddlu Gwent, Bwrdd Iechyd Athrofaol Aneurin Bevan ac awdurdodau

lleol [(Galwad Cynhadledd Cam-drin Domestig (DACC))] dros y cyfnod 2014-15 i 2015-16. Gwelodd Torfaen gynnydd bach dros y cyfnod, sef 0.1% a 1.4% yn ôl eu trefn.

Ffigur 25 Nifer yr achosion o gam-drin domestig a gofnodwyd

	Caerffili	Blaenau Gwent	Torfaen	Sir Fynwy	Casnewydd
YF 2014 – 15	3,805	1,778	2,192	1,059	3,882
YF2015 – 16	3,782	1,595	2,223	973	3,920

Ffynhonnell: Adroddiad ar Asesiad o Anghenion Poblogaeth Rhanbarth Gwent 2018

Pwyntiau Allweddol:

- Disgwylir i'r galw am wasanaethau ar draws y rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth gynyddu gan ddod â heriau newydd ac ychwanegol.
- Mae grwpiau bregus neu ymylol yn aml yn cael mwy o drafferth nag eraill i gael hyd i wasanaethau, gan arwain at lefelau iechyd gwaeth
- Mae grwpiau bregus yn aml yn wynebu lefelau uwch o dlodi ac maent mewn mwy o berygl o gamddefnyddio sylweddau a wynebu problemau iechyd meddwl.
- Roedd gan Dorfaen lefelau uchel o blant sy'n derbyn gofal a fydd yn parhau i roi pwysau cynyddol ar yr awdurdod lleol.
- Mae gan Dorfaen un o'r achosion uchaf o droseddau rhyw a digwyddiadau o gam-drin domestig a gofnodwyd ledled Gwent
- Dylid ymchwilio ymhellach i ddulliau ataliol, ac adolygu arferion presennol, i sicrhau bod yr holl opsiynau sydd ar gael yn cael eu hystyried.
- Tynnwyd sylw at bwysigrwydd gweithio ar y cyd a dulliau amlasiantaeth o fynd i'r afael ag angen.
- Mae adeiladu ar yr arfer da sy'n bodoli eisoes a gwella a datblygu ymhellach y mecanweithiau a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd, yn hollbwysig.

Data Lleol ar Ddigartrefedd a Thai

Digartrefedd

Digartrefedd yw un o'r problemau mwyaf difrifol a niweidiol sy'n wynebu cymdeithas heddiw, a gall yr effeithiau ar aelwyd fod yn ddifrifol. Bob blwyddyn mae Torfaen yn parhau i gefnogi nifer sylweddol o aelwydydd sydd naill ai mewn perygl o ddigartrefedd, neu'n wynebu digartrefedd, yn ogystal â nifer cynyddol o bobl sy'n cysgu ar y stryd y nodwyd eu bod yn cysgu ar y stryd yn y fwrdeistref.

Mae llawer o'r aelwydydd sy'n cysylltu â'r Gwasanaeth Atebion Tai yn cynnwys plant, sy'n arbennig o agored i effeithiau digartrefedd ac sy'n aml yn gallu dioddef yn andwyol o'r profiad. Felly, mae gweithio i liniaru eu sefyllfa cyn gynted â phosibl a sicrhau bod digon o gefnogaeth a chymorth ar gael, yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Lefelau o Ddigartrefedd

Mae ffigur 26 yn dangos nifer yr aelwydydd a gysylltodd â'r awdurdod lleol am gymorth dros y 4 blynedd diwethaf. Fe wnaethant gysylltu naill ai oherwydd eu bod mewn perygl o fod yn ddigartref (Adran 66), neu oherwydd eu bod eisoes yn ddigartref (Adran 73) ac yn ceisio cymorth i ddatrys eu sefyllfa.

Ffigur 26 Datganiad Digartrefedd Llywodraeth Cymru

Adran 66 - Atal	17/18	18/19	19/20	20/21
Cyfanswm yr Aelwydydd	426	435	299	281
Aelwydydd Pobl Sengl	225	222	150	181
Aelwydydd Bobl Sengl (%)	53%	51%	50%	64%
Aelwydydd â Phlant sy'n Ddibynol	174	165	124	82
Adran 73 – Cymorth i'r Digartref	17/18	18/19	19/20	20/21
Cyfanswm yr Aelwydydd	396	411	270	346
Aelwydydd Pobl Sengl	294	285	197	274
Aelwydydd Pobl Sengl (%)	74%	69%	73%	79%
Aelwydydd â Phlant sy'n Ddibynol	90	102	62	63

Ffynhonnell: StatsCymru a Gwasanaeth Tai Torfaen

Mae'r ffigurau'n dangos, er bod rhywfaint o ostyngiad wedi bod yn nifer yr aelwydydd sy'n cyflwyno dan Adran 66 yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, nid yw nifer yr aelwydydd sy'n wynebu digartrefedd wedi newid yn sylweddol, gyda Ffigurau'n gostwng yn 2019/20 ond yn codi eto yn 2020/21.

Rhesymau mwyaf cyffredin yr aelwydydd dros geisio cymorth drwy'r Gwasanaeth Atebion Tai a rhai o'r prif ffactorau a gyfrannodd at aelwydydd mewn perygl o ddigartrefedd oedd:

- Teuluoedd yn amharod i letya mwyach,
- Perthynas yn chwalu
- Colli llety
- Ôl-ddyledion rhent

Demograffeg Aelwydydd

Ethnigrwydd

Gwyn yw ethnigrwydd trigolion Torfaen yn bennaf, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr aelwydydd digartref a gysylltodd â'r awdurdod lleol am gymorth yn y 4 blynedd diwethaf.

Ffigur 27 Ethnigrwydd Ymgeiswyr


	Gwyn	Grwpiau ethnig cymysg/ lluosog	Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	Du/ Affricanaidd/ Caribïaidd/ Du Prydeinig	Grŵp ethnig arall	Anhysbys
2017/18	97.06	0.27	0.27	0.53	0.27	1.34
2018/19	73.67	3.14	7.49	0.24	3.14	12.32
2019/20	97.35	0.22	0.77	0.22	0.22	1.22
2020/21	97.23	1.00	0.00	0.22	0.22	1.33

Ffynhonnell: Gwasanaeth Tai Torfaen

Oedran

Bob blwyddyn mae tua 25% o'r holl ymgeiswyr digartref rhwng 16 a 24 oed, sy'n dangos bod digartrefedd ymysg pobl ifanc yn parhau i fod yn faes sy'n peri pryder yn Nhorfaen.

Ffigur 28 Ymgeiswyr Digartref 16 – 24 oed



Ffynhonnell: Gwasanaeth Tai Torfaen

Roedd y prif resymau pam roedd aelwydydd ifanc yn wynebu digartrefedd yn cynnwys;

- Rhieni neu berthnasau eraill yn methu eu helpu mwyach o ran lletya,
- Perthynas yn chwalu
- Colli llety y maent yn ei rhent
- Pobl ifanc yn gadael gofal neu fath arall o sefydliad

Pan ddadansoddwyd y math o aelwyd, mae'r canlyniadau'n adlewyrchu'r rhai yn Ffigur 26; gydag aelwydydd un person yn cyfrif am y gyfran uchaf o geisiadau a dderbyniwyd. Mae'r lefelau uchel o ymgeiswyr ifanc sengl sy'n ddigartref yn bryder oherwydd y nifer cyfyngedig o letyau addas a fforddiadwy sydd ar gael; sefyllfa sydd wedi'i gwaethygu ymhellach gan y cymhorthdal ystafell sbâr, sector rhentu preifat bach a nifer gyfyngedig o opsiynau tai a rennir.

Ffigur 29 Canlyniadau Digartrefedd yn ôl Oedran

	2017/18			2018/19			2019/20			2020/21		
	16 - 17	18 - 24	25+	16 - 17	18 - 24	25+	16 - 17	18 - 24	25+	16 - 17	18 - 24	25+
Aelwydydd anghymwys		21	57		15	54		2	3		4	12
Cymwys, ond ddim yn ddigartref neu dan fygythiad digartrefedd		6	18		9	21		6	14	2	29	45
Cymwys, dan fygythiad digartrefedd, cymorth atal yn cael ei ddarparu (Adran 66)	15	132	282	6	114	315	17	92	192	8	54	222
Cymwys, digartref, yn amodol ar ddyletswydd i helpu i ganfod llety (Adran 73)		102	291		102	309	3	57	212	1	83	263
Cymwys, digartref ond nid ag angen sy'n flaenoriaeth		33	99		51	114		20	73		5	38
Cymwys, digartref ac angen sydd o flaenoriaethol ond yn fwriadol		6	18		6	27			12			3
Cymwys, yn ddigartref yn anfwriadol gydag angen sydd o flaenoriaethol (Adran 75)		6	33		15	84		11	77		33	102
Cyfanswm	15	306	798	6	312	924	20	188	583	11	208	685
Canran (%)	1.34	27.35	71.31	0.48	25.12	74.40	2.53	23.77	73.70	1.22	23.01	75.77

Ffynhonnell: StatsCymru a Gwasanaeth Tai Torfaen

Math o Aelwyd

Roedd aelwydydd person sengl yn cyfrif am tua 50% o'r holl geisiadau dan Adran 66 a dderbyniwyd, a rhwng 70% - 80% o'r holl geisiadau dan Adran 73. Mae hyn yn sylweddol ac yn amlygu pam mae'r awdurdod lleol yn cael anawsterau wrth ddod o hyd i atebion tai hirdymor ar gyfer aelwydydd person sengl.

Dangosodd data dyrannu o'r 3 blynedd diwethaf fod tua 33% o'r holl eiddo tai cymdeithasol a ddyrennir bob blwyddyn yn eiddo 1 ystafell wely (ac eithrio tai ymddeol), ond bod tua 60% o ymgeiswyr sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd angen eiddo 1 ystafell wely.

Mae gan Dorfaen sector tai cymdeithasol cymharol fawr, ond 25% ohono yn unig sy'n eiddo 1 ystafell wely, sy'n annigonol ar hyn o bryd i fodloni lefelau'r galw ar hyn o bryd.

Ffigur 30 Y Stoc Tai Cymdeithasol yn Nhorfaen

	1 Yst. Wely	2 Yst. Wely	3 Yst. Wely	4 Yst. Wely	5 Yst. Wely	Cyfanswm
Gogledd	244	787	640	21		1692
Canol	648	1028	1203	52	1	2932
De	1689	1601	2124	218	12	5644
Cyfanswm	2581	3416	3967	291	13	10268
%	25.14%	33.27%	38.63%	2.83%	0.13%	

Ffynhonnell: Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn Nhorfaen

Stoc rhent preifat cymharol fach sydd gan Dorfaen, felly mae ei allu i sicrhau llety addas ar gyfer aelwydydd un person yn y sector hwn yn gyfyngedig. Sefyllfa sydd wedi'i gwaethygu ymhellach gan ddiwygiadau i fudd-daliadau lles.

Atal Digartrefedd a Chymorth i'r Digartref

Mae'r tabl a ganlyn yn nodi faint o aelwydydd (mewn perygl o fod yn ddigartref) a gafodd eu hatal rhag dod yn ddigartref bob blwyddyn.

Ffigur 31 Cymwys, dan fygythiad digartrefedd, cymorth a ddarparwyd i atal (Adran 66)

Adran 66 – Achosion a Ataliwyd	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Cyfanswm yr Achosion	426	435	300	284
Wedi'i atal yn llwyddiannus (Nifer)	246	237	177	154
Wedi'i atal yn llwyddiannus (%)	58%	55%	59%	54%

Ffynhonnell: StatsCymru a Gwasanaeth Tai Torfaen

Llwyddwyd i atal 50% – 60% o aelwydydd rhag bod yn ddigartref bob blwyddyn. Roedd y mathau mwyaf cyffredin o ymyrraeth yn cynnwys;

- Datrys ôl-ddyledion rhent neu dâl gwasanaeth
- Dyled a Chyngor Ariannol
- Cyfryngu a chymodi
- Taliadau ariannol

Os nad oedd modd atal digartrefedd, roedd yna'r posibilrwydd (o dan rai amgylchiadau) i leddfu sefyllfa'r ymgeisydd.

Ffigur 32 Cymwys, digartref, yn amodol ar gymorth i ganfod llety (Adran 73)

Adran 73-Achosion Cymorth	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Cyfanswm yr Achosion	396	411	270	347
Cymorth Llwyddiannus (Nifer)	78	63	60	58
Cymorth Llwyddiannus (%)	20%	15%	22%	17%

Ffynhonnell: StatsCymru a Gwasanaeth Tai Torfaen

Cafodd 15% - 20% o aelwydydd gymorth i leddfu'u digartrefedd a'r mathau o gymorth mwyaf cyffredin oedd:

- Cael hyd i denantiaeth tai cymdeithasol
- Cael mynediad at y sector rhentu preifat, weithiau drwy ddefnyddio cymhelliant landlord
- Cael hyd i lety a drefnwyd gyda ffrindiau neu berthnasau
- Cael hyd i dai â chymorth

Os nad oedd modd atal neu leddfu'r digartrefedd, a bod gan yr ymgeisydd angen cymwys oedd o flaenoriaeth, yna roedd dyletswydd dan Adran 75 i ddarparu llety diogel yn berthnasol. Bob blwyddyn llwyddwyd i ryddhau dros 70% o ymgeiswyr yr oedd dyletswydd Adran 75 yn berthnasol iddynt.

Ffigur 33 Adran 75 Rheswm dros Rhyddhau yn Llwyddiannus

Adran 75 – Rheswm dros Rhyddhau	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Derbyn cynnig sector preifat	4.08%	5.83%	8.42%	2.24%
Derbyn cynnig am lety drwy'r cynllun dyrannu	74.49%	65.00%	75.79%	72.39%
Cyfanswm	78.57%	70.83%	84.21%	74.63%

Ffynhonnell: Gwasanaeth Tai Torfaen

Fodd bynnag, ni chafodd cyfran sylweddol o achosion eu rhyddhau'n llwyddiannus. Roedd nifer o resymau am hyn, gan gynnwys yr ymgeisydd yn gwrthod pan gynigiwyd llety addas, yn gwrthod cydweithredu gyda'r Gwasanaeth Atebion Tai, neu'n tynnu eu cais yn ôl. Fodd bynnag, un o'r rhesymau mwyaf cyffredin oedd bod yr ymgeisydd wedi colli ei lety dros dro neu'n methu / rhoi'r gorau i'w feddiannu.

Ffigur 34 Colli Llety Dros Dro

Adran 75 – Rheswm dros Rhyddhau	17/18	18/19	19/20	20/21
04. Wedi dod yn ddigartref yn fwriadol o lety a gafwyd o dan adran 75	6%	5%	3%	5%
07. Peidiodd o'i wirfodd i feddiannu llety a roddwyd dan adran 75	2%	5%	2%	10%
Cyfanswm	8%	10%	5%	14%

Ffynhonnell: Gwasanaeth Tai Torfaen

Cysgu ar y Stryd

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Torfaen wedi gweld nifer cynyddol o bobl yn cysgu ar y stryd yn y fwrdeistref. Mae gwaith allgymorth yn cael ei wneud ar hyn o bryd drwy gynllun GCT, i ddarparu cymorth i'r aelwydydd hyn ac mae llawer wedi cael llety dros dro yn ystod y pandemig. Roedd y rhan fwyaf o'r rheini oed dyn cysgu ar y stryd y bu'r awdurdod lleol yn gweithio gyda nhw, yn aelwydydd un person.

Dangosodd ciplun o'r rhai sy'n cysgu ar y stryd, ar ddiwedd pob mis fod y Gwasanaeth Atebion Tai dros y 6 mis diwethaf wedi bod yn lletya rhwng 2 a 7 o bobl sy'n cysgu ar y stryd neu aelwydydd mewn perygl o gysgu ar y stryd bob mis (oherwydd deddfwriaeth coronafirws), tra bod gan y tîm allgymorth rhwng 3 a 9 achos ar agor ar unrhyw un adeg.

Ffigur 35 Niferoedd sy'n Cysgu ar y stryd

Pobl sy'n cysgu ar y stryd	Tach 2020	Rhag 2020	Ion 2021	Chwe 2021	Maw 2021	Ebr 2021
Lletya mewn tai dros dro	4	6	5	3	7	2
Cysgu ar y stryd	9	5	3	6	3	4

Ffynhonnell: Datganiad Llety Dros Dro i'r Digartref LIC

Mae'r cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a'r canllawiau sy'n egluro statws 'Angen o Flaenoriaeth' pobl sy'n cysgu ar y stryd yn ystod y pandemig, wedi helpu i fynd i'r afael â lefelau cysgu ar y stryd yn Nhorfaen ac wedi cynorthwyo aelwydydd na fyddai wedi bod â hawl i'r un lefel o gymorth yn flaenorol.

Fodd bynnag, mae rhai o'r materion sylfaenol sydd wedi arwain at gynydd mewn cysgu ar y stryd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fel diffyg sylweddol o ran tai addas a fforddiadwy, yn parhau i fod yn gyffredin. Mae angen lefelau uwch o fuddsoddiad, darparu mwy o gymorth a chynllunio'r ddarpariaeth tai a'r cyflenwad tai yn barhaus, er mwyn dileu rhai o achosion sylfaenol cysgu ar y stryd a digartrefedd.

Lefelau Digartrefedd yn y Dyfodol

Mae lefelau digartrefedd dros y 4 blynedd diwethaf wedi aros yn gyson ac er y bu gostyngiad yn y cyflwyniadau dan Adran 66, (o bosibl o ganlyniad i rai o'r mesurau ataliol a roddwyd ar waith gan y rhaglen GCT a'r Gwasanaeth Atebion Tai), mae digartrefedd yn parhau i fod yn faes sydd â galw sylweddol.

Gydag effaith y coronafirws eto i'w theimlo, rhagwelir y bydd lefelau digartrefedd yn Nhorfaen yn y dyfodol yn debygol o aros yn debyg neu barhau i godi yn y dyfodol rhagweladwy. Fodd bynnag, mae Torfaen wedi bod yn gwneud defnydd helaeth o'r adnoddau sydd ar gael ac yn archwilio dulliau newydd ac arloesol o fynd i'r afael â digartrefedd ymhellach yn y fwrdeistref.

Adnoddau

Mae ystod eang o adnoddau ar gael yn Nhorfaen i gynorthwyo gydag atal a lleihau digartrefedd:

Y Gwasanaeth Atebion Tai

Mae tîm ymroddedig sy'n cynnwys Swyddogion Atebion Tai, Gweithiwr Cymorth Iechyd Meddwl arbenigol a Swyddog Tai penodedig ar gyfer Pobl Ifanc penodedig yn delio â'r rhan fwyaf o'r aelwydydd sydd angen cymorth statudol i ddiwallu eu hanghenion tai.

Bydd y tîm yn gweithio gydag unigolion i asesu eu hanghenion a nodi'r opsiynau mwyaf addas ar eu cyfer, gan ddefnyddio'r holl offer ac adnoddau sydd ar gael e.e. grant atal digartrefedd, cymhellion landlordiaid, atgyfeiriadau cymorth sy'n gysylltiedig â thai (gan gynnwys cynhwysiant ariannol).

Porth Grant Cymorth Tai

Mae proses atgyfeirio dda eisoes yn bodoli rhwng y Gwasanaeth Atebion Tai a'r Porth GCT, i sicrhau bod unrhyw aelwyd sydd angen cymorth ychwanegol yn gallu cael eu hatgyfeirio'n gyflym ac yn hawdd am gymorth. Yn 2020/21, gwnaed 3171 o atgyfeiriadau at y Porth.

Gwasanaethau Galw Heibio

Mae'r rhaglen GCT wedi rhoi gwasanaethau galw heibio ar waith fel pwynt cyswllt cyntaf i drigolion sy'n wynebu anawsterau gyda'u tai. Mae'r rhain wedi bod yn hynod effeithiol o ran sicrhau bod aelwydydd yn cael y wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, cyn i'w sefyllfa waethygu.

Ers eu cyflwyno yn 2019, mae nifer yr achosion Adran 66 wedi gostwng a bu rhywfaint o ostyngiad yn nifer yr achosion dan Adran 73, er bod cyflwyniadau wedi cynyddu eto yn ystod 2020/21, o bosibl o ganlyniad i'r pwysau gan y pandemig coronafirws, pan nad oedd yn bosibl darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb.

Ers eu cyflwyno yn 2019, mae nifer yr achosion Adran 66 wedi gostwng a bu rhywfaint o ostyngiad yn nifer yr achosion dan Adran 73, er bod cyflwyniadau wedi cynyddu eto yn ystod 2020/21, o bosibl o ganlyniad i'r pwysau gan bandemig coronafirws, pan nad oedd yn bosibl darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb.

Ni ellir priodoli gostyngiadau yn nifer y rhai sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref i'r gwasanaethau galw heibio yn unig, ond maent yn rhan o ddull ataliol ehangach sy'n ceisio mynd i'r afael â rhai o achosion sylfaenol digartrefedd cyn gynted â phosibl.

Yn 2020/21, de wnaeth trigolion ddefnyddio'r gwasanaeth galw heibio ar dros 912 o adegau. Rhai o'r prif resymau dros ddefnyddio'r cymorthfeydd galw heibio oedd;

- Cyngor ar dai,
- Cymorth gyda Thai
- Y ffaith nad oedd ganddynt unrhyw le i fyw

Cynlluniau Peilot Tai yn Gyntaf

Mae'r rhaglen GCT eisoes yn ariannu ystod eang o wasanaethau i gefnogi pobl ifanc ac maent wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth i archwilio a datblygu cynlluniau peilot tai yn gyntaf a chynlluniau llety addas eraill sy'n cynorthwyo'r cyfnod pontio ailgartrefu cyflym.

Lletyau Dros Dro

Gyda'r pwysau'n parhau ar y Gwasanaeth Atebion Tai, mae yna alw, heb os, am fwy o letyau dros dro.

Ffigur 36 Llety Dros Dro yn Nhorfaen

Lleoliad	1 Yst. wely	2 Yst. wely	3 Yst. wely	Cyfanswm
Gogledd		4		4
Canol	7	2	3	12
De	58	8	3	69
Cyfanswm	65	14	6	85

Ffynhonnell: Gwasanaeth Tai Torfaen

Mae gan Dorfaen gyflenwad da o lety i gynorthwyo aelwydydd sy'n wynebu digartrefedd, fodd bynnag, mae data a gasglwyd trwy Ddatganiad Chwarterol Tai Cymru wedi dangos bod y galw yn parhau'n uchel ar unrhyw adeg benodol.

Mae'r tabl a ganlyn yn cofnodi faint o aelwydydd oedd mewn llety dros dro ar ddiwrnod olaf pob blwyddyn ariannol.

Ffigur 37 Aelwydydd mewn Llety dros dro ar ddiwedd blwyddyn ariannol

Cyfnod Amser	2018	2019	2020	2021
Nifer yr Aelwydydd	57	60	60	87

Ffynhonnell: StatsCymru a Gwasanaeth Tai Torfaen¹⁹

Bu galw cyson am lety dros dro dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ond bu cynnydd sydyn yn ystod 2020/21, yn rhannol oherwydd y gofynion a roddwyd ar awdurdodau lleol yn ystod y pandemig. Gellir gweld y cynnydd hwn hefyd wrth gymharu nifer yr aelwydydd unigol a roddwyd mewn llety dros dro dros y flwyddyn; gyda llawer mwy yn cael ei gosod yn 2020/21

Ffigur 38 Aelwydydd a gafodd eu gosod mewn Llety Dros Dro

Cyfnod Amser	2018/19	2019/20	2020/21
Nifer yr aelwydydd	190	177	238

Ffynhonnell: Gwasanaeth Tai Torfaen²⁰

¹⁹ <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Homelessness/Temporary-Accommodation/householdsaccommodatedtemporarily-by-accommodationtype-householdtype> [Cyrchwyd 05.05.2021]

²⁰ Bydd cyfanswm nifer y lleoliadau bob blwyddyn ychydig yn uwch gan fod rhai aelwydydd wedi'u gosod ar fwy nag un achlysur

Pan ddadansoddir y ffigurau hyn yn ôl y math o aelwyd, mae'n amlwg bod aelwydydd un person hefyd wedi codi'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf a'u bod bellach yn cyfrif am y nifer fwyaf o leoliadau a dderbyniwyd.

Ffigur 39 Lleoliadau Llety Dros Dro yn ôl y Math o Aelwyd

Math o Aelwyd	18/19	19/20	20/21
1. Cwpl gyda phlentyn(plant) dibynnol	15	15	7
2. Aelwyd rhiant sengl gyda phlant dibynnol - ymgeisydd sy'n ddyn	4	4	7
3. Aelwyd rhiant sengl gyda phlant dibynnol - ymgeisydd sy'n fenyw	69	43	31
4. Aelwyd person sengl - ymgeisydd sy'n ddyn	59	42	124
5. Aelwyd person sengl - ymgeisydd sy'n fenyw	34	56	57
6. Pob grŵp aelwyd arall	9	17	12
Cyfanswm	190	177	238

Ffynhonnell: Gwasanaeth Tai Torfaen

Ffigur 40 Lleoliadau Llety Dros Dro yn ôl Math o Aelwydydd Lluosog ac Unigol

Math o Aelwyd	18/19		19/20		20/21	
Aelwydydd â Sawl Person	97	51%	79	45%	57	24%
Aelwydydd Un Person	93	49%	98	55%	181	76%
Cyfanswm	190		177		238	

Ffynhonnell: Gwasanaeth Tai Torfaen

Yn 2018/19 roedd nifer yr aelwydydd person sengl tua hanner, ond cynyddodd hyn yn 2019/20 ac erbyn 2020/21 roedd aelwydydd person sengl yn cyfrif am dros 75% o'r holl leoliadau llety dros dro yn ystod y flwyddyn, gan amlygu'r angen am fwy o letyau i bobl sengl. Mae'r awdurdod lleol yn parhau i weithio gyda landlordiaid i ddod o hyd i opsiynau tai addas pan fo angen er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol o lety dros dro ar gael.

Ymddieithrio

Er gwaethaf y galw am lety dros dro, mae nifer sylweddol o aelwydydd yn colli eu llety dros dro, sy'n bryder ac yn codi cwestiynau ynghylch pa mor addas yw'r llety, lefel y cymorth sydd ar gael, ac anghenion penodol yr unigolyn.

Mae gan Dorfaen amrywiaeth o adnoddau a gwasanaethau sydd ar gael i gynorthwyo aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, yn wynebu digartrefedd, neu'r rhai a allai fod yn byw mewn llety dros dro.

Mae'r Gwasanaeth Atebion Tai a'r Porth GCT yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau bod aelwydydd sydd angen cymorth ychwanegol yn gallu cael hyd i'r cymorth sydd ei angen arnynt. Fodd bynnag, i gyfran fach, mae ymddieithrio yn ymddangos yn broblem, sy'n gwneud eu gallu yn y pen draw i sicrhau llety hirdymor yn anodd.

Dros y 4 blynedd diwethaf, roedd nifer sylweddol o ymgeiswyr a gysylltodd â'r awdurdod lleol am gymorth naill ai wedi gwrthod cymorth, wedi methu â chydweithredu â'r awdurdod lleol, wedi tynnu eu cais yn ôl neu wedi tynnu eu cais yn ôl oherwydd colli cysylltiad.

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos cyfran gyffredinol yr ymddieithrio o ran Adran 66, Adran 73 ac Adran 75:

Ffigur 41 Lefelau Diffyg Ymgysylltu y Gwasanaeth Digartrefedd1

Diffyg Ymgysylltu (%)	17/18	18/19	19/20	20/21
Adran 66	25.35%	23.45%	19.00%	23.94%
Adran 73	6.82%	2.19%	4.44%	7.20%
Adran 75	14.29%	15.15%	12.00%	12.59%

Ffynhonnell: StatsCymru & Gwasanaeth Tai Torfaen

Roedd tua chwarter yr ymgeiswyr wedi ymddieithrio yn Adran 66 a bron i 15% wedi ymddieithrio yn Adran 75.

Yn Adran 66 y rheswm mwyaf cyffredin dros ymddieithrio oedd colli cyswllt, ond yn Adran 75, y prif reswm oedd gwrthod cymorth. Mae hyn yn bryder ac yn codi rhai cwestiynau ynghylch y rheswm dros y gwrthodiadau hyn ac a oes angen gwneud mwy i gefnogi aelwydydd yn Adran 75.

Pwyntiau Allweddol:

- Mae atal digartrefedd yn parhau i fod yn hanfodol o ran sicrhau gostyngiad hirdymor yn nifer y bobl sydd angen cymorth.
- Aelwydydd sengl ifanc sy'n cyfrif am gyfran sylweddol o achosion o ddigartrefedd.
- Mae cynnal gwasanaethau i gefnogi aelwydydd ifanc sy'n ddigartref yn Nhorfaen yn hanfodol.
- Mae'n ymddangos bod gwasanaethau cyfryngu, cymorth tenantiaeth a gwasanaethau cynhwysiant ariannol yn gweithio ac yn parhau i fod yn hanfodol o ran sicrhau bod gan bobl y sgiliau a'r cymorth i reoli a chynnal eu llety.
- Perthynas yn chwalu a theuluoedd yn anfodlon lletya aelwydydd yw un o'r prif resymau dros ddigartrefedd.
- Mae lefelau'r angen am dai yn parhau'n uchel ond mae gwasanaethau galw heibio yn cael effaith gadarnhaol.
- Mae cysgu ar y stryd wedi cynyddu ar draws y fwrdeistref
- Cynyddodd y galw am lety dros dro yn ystod 2020/21, yn enwedig ar gyfer aelwydydd person sengl.
- Mae ymgeiswyr sy'n ymddieithrio yn parhau i fod yn bryder ac yn faes i'w archwilio ymhellach

Y Galw am Dai a Fforddiadwydd

Er gwaethaf y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael yn Nhorfaen, un o'r rhesymau sylfaenol dros ddigartrefedd a'r angen am dai, yw diffyg opsiynau llety addas, fforddiadwy, sy'n golygu nad yw cael hyd i dai yn y tymor hir yn gyraeddadwy i lawer o aelwydydd.

Mae prisiau tai ar gyfartaledd yn Nhorfaen bellach allan o gyrraedd ariannol i lawer o drigolion, yn enwedig y rhai sy'n prynu am y tro cyntaf. Pris cartref yn Nhorfaen, ar gyfartaledd yn ystod 2020 oedd **£178,749**, tra bod incwm blynyddol gweithiwr llawn amser, ar gyfartaledd ar hyn o bryd yn **£32,619**²¹ sy'n golygu bod y gymhareb o ran pris tŷ ar gyfartaledd ac aelwyd un incwm yn 5.5:1.

Ffigur 42 Prisiau Tai ar Gyfartaledd yn Nhorfaen (2020)

Torfaen ²²	Tŷ Sengl	Tŷ Pâr	Tŷ Teras	Fflat /Fflat deulawr	Cyfartaledd
2020	£ 284,213	£ 169,834	£129,570	£86,798	£178,749

Ffynhonnell: Cofrestrfa Tir EM

Ar gyfartaledd, byddai gan hyd yn oed eiddo teras, sef y math mwyaf o eiddo yn Nhorfaen, gymhareb pris tŷ i incwm o 4:1 ar gyfer aelwyd un incwm. Mae Fflatiau a Fflatiau Deulawr yn opsiwn mwy fforddiadwy, ond nid ydynt ond yn cyfrif am 10% o'r stoc dai yn Nhorfaen ac mae cyfran uchel ohonynt yn y sector cymdeithasol, felly nid ydynt ar gael i'w prynu.

Mae Perchentyaeth Cost Isel (LCHO) wedi gallu cynorthwyo rhai aelwydydd sydd ar hyn o bryd wedi'u priso allan o'r farchnad agored ac mae'r galw am y gwasanaeth hwn wedi cynyddu, gyda dros 500 o ymgeiswyr ar y gofrestr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn addas ar gyfer pob aelwyd, sydd. Heb os, yn rhoi mwy o bwysau ar y marchnadoedd rhentu.

Sector rhentu preifat cymharol fach sydd gan Dorfaen (tua 10%) ac er gwaethaf ymdrechion i'w wneud yn fwy hygyrch a datblygu cynnyrch rhentu canolradd, nid yw wedi tyfu'n sylweddol ac mae'n parhau i fod yn opsiwn drud i lawer o aelwydydd, yn enwedig y rhai o dan 35 oed ac sy'n derbyn budd-daliadau.

Yn 2019, roedd eiddo 1 ystafell wely yn Nhorfaen yn costio £415.48 y mis ar gyfartaledd:

Ffigur 43 Rhenti Sector Preifat (2019)²³

	Maint y sampl	Rhent ar gyfartaledd	Rhent (Canolrif)	Rhent (Chwartzel isaf)	Rhent (Chwartzel uchaf)
Ystafell	17	£348.34	£346.67	£346.67	£346.67
1 Ystafell wely	80	£415.48	£400.00	£376.50	£450.00
2 Ystafell wely	333	£495.98	£495.00	£450.00	£550.00
3 Ystafell wely	355	£571.97	£560.00	£522.50	£600.00
4 Ystafell wely	48	£754.11	£750.00	£650.00	£850.00

Ffynhonnell: Swyddogion Rhenti Cymru – Gwybodaeth am Osodiadau

Mae'r Lwfans Tai Lleol (LTLI) yn **£378ym (£234ym** i aelwydydd sengl dan 35) ar hyn o bryd, felly byddai tenantiaid sy'n derbyn budd-daliadau yn ei chael yn anodd, a thai cymdeithasol byddai eu hunig opsiwn. Ond, hyd yn oed yn y sector cymdeithasol, mae rhenti wedi parhau

²¹ Ffynhonnell: Arolwg blynyddol oriau ac enillion SYG – dadansoddiad trigolion Nomis:

<https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157402/report.aspx?town=torfaen#tabearn> [Cyrchwyd 20.04.2021]

²² Cofrestrfa Tir EM <https://landregistry.data.gov.uk/app/standard-reports/download-report?utf8=%E2%9C%93&report=avgPrice&areaType=county&area=TORFAEN&aggregate=none&period%5B%5D=2020&period%5B%5D=2019&age=any> [Cyrchwyd 20.04.2021]

²³ <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Private-Sector-Rents>

i gynyddu, gyda rhenti ar gyfartaledd yn £95.14 yr wythnos yn 2019/20; cynnydd o tua 20% ers 2013/14.

Ffigur 44 Rhenti wythnosol cyfartalog yn y stoc tai, a rhenti cymdeithasol yn ôl ardal, llety a math o ddarparwr

	Stoc anghenion cyffredinol	Â chymorth gan gynnwys stoc gwarchod	Stoc gwarchod	Stoc cymorth arall	Stoc gofal ychwanegol	Cyfanswm y stoc ar rent cymdeithasol
2013/14	£79.93	£76.53	£68.95	£78.08	£127.55	£79.9
2019/20	£95.14	£83.23	£82.75	£83.33	£161.22	£94.42

Ffynhonnell: Casgliad stoc a data rhenti landlordiaid cymdeithasol, Welsh Government

Mae diwygiadau i fudd-daliadau lles hefyd wedi golygu mai aelwydydd person sengl o dan 35 ac sy'n derbyn budd-daliadau a hynny'n unig y caiff hawlio cyfradd ystafell a rennir o'r budd-dal tai, felly'n rhwystro eu gallu ymhellach i gael llety fforddiadwy.

Ac eto, er gwaethaf y problemau hyn, tai cymdeithasol yw'r unig opsiwn ymarferol o hyd i lawer o aelwydydd, fel y dangosir gan y nifer uchel o bobl sy'n gwneud cais bob blwyddyn.

Mae'n anochel y bydd amseroedd aros am dai cymdeithasol yn amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau unigol yr ymgeisydd a'r math o eiddo sydd ei angen arno. Fodd bynnag, mae'r amser aros ar gyfartaledd (yn seiliedig ar gyfartaledd 3 blynedd) tua 1.5 mlynedd, ond gall fod yn uwch i eiddo 1 ystafell wely a chynyddu hyd yn oed yn fwy ar gyfer eiddo yn ne'r fwrdeistref.

Ffigur 45 Amser aros ar gyfartaledd am Dai Cymdeithasol yn ôl maint ac ardal (Diwrnodau)

	Gogledd	Canol	De	Cyfanswm
1 Yst. wely	394	536	602	563
2 Yst. wely	291	345	529	405
3 Yst. wely	319	362	551	450
4 Yst. wely	Dim eiddo ar osod	422	453	444
5 Yst. wely	Dim eiddo ar osod	Dim eiddo ar osod	190	189
Cyfanswm	320	415	566	477

Bydd anghenion unigol yr ymgeisydd hefyd yn effeithio ar hyd yr amser y bydd yn aros am lety, gydag amser aros ymgeiswyr mewn bandiau Aur a Digartrefedd ar gyfartaledd yn is na'r rhai yn y band Efydd neu Arian.

Ffigur 46 Amser Aros am Dai Cymdeithasol ar Gyfartaledd yn ôl Band Blaenoriaeth2

	Efydd	Arian	Aur	Digartref	Cyfanswm
Diwrnodau	834	446	432	148	477

Pwyntiau Allweddol:


- Mae'r galw am dai yn uchel iawn, yn enwedig yn y sector tai cymdeithasol
- Nid yw berchen ar dŷ yn opsiwn hyfyw i lawer o aelwydydd ifanc sy'n gweithio
- Mae'r sector rhentu preifat yn Nhorfaen yn parhau i fod yn fach ac yn aml nid yw'n fforddiadwy
- Er mai dyma'r opsiwn mwyaf fforddiadwy o hyd, mae rhenti tai cymdeithasol wedi cynyddu'n eithaf sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf.

Y Gofrestr Tai Cymdeithasol a'r Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy

Mae dros 3000 o aelwydydd ar y gofrestr dai gyffredin yn Nhorfaen.

Mae oedran ymgeiswyr yn amrywio o 16 i 97, ond mae'r gyfran fwyaf o ymgeiswyr yn rhai dan 35 oed:

Ffigur 47 Oed yr Ymgeiswyr ar Homeseeker



Ffynhonnell: Cofrestr Tai Gyffredin Torfaen

Mae dros 60% o ymgeiswyr ar y gofrestr tai ar hyn o bryd yn sengl, (22% yn sengl ac o dan 35 oed), sydd, heb os, yn cynyddu'r galw am unedau llety llai. Mae'r tabl canlynol yn dangos cyfran yr eiddo tai cymdeithasol yn Nhorfaen yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely:

Ffigur 48 Y Stoc Tai Cymdeithasol

Ystafelloedd Gwely	Nifer	%
1	2581	25.14
2	3416	33.27
3	3967	38.63
4+	304	2.96
Cyfanswm	10268	

Ffynhonnell: Partneriaid Homeseeker Torfaen

Gydag eiddo 1 ystafell wely a stiwdios yn cyfrif am chwarter yr holl stoc tai cymdeithasol yn unig, mae darparu cyflenwad digonol o lety llai yn parhau i fod yn her. Mae tenantiaethau ar y cyd ac opsiynau tai a rennir wedi cael eu hannog yn lleol, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, tra bod gwaith gyda phartneriaid sy'n Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) lleol hefyd wedi'i wneud i hyrwyddo a datblygu opsiynau addas a rennir. Ond er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae'r galw yn parhau i fod yn uchel.

Mae Torfaen yn parhau i ddatblygu opsiynau tai fforddiadwy newydd ar draws gwahanol ddeiliadaethau ac yn gweithio'n agos gyda'i bartneriaid i sicrhau bod mynediad at y cynlluniau hyn yn parhau i fod yn deg ac yn deg. Serch hynny, mae'r galw yn parhau i fod yn fwy na'r cyflenwad, a bob blwyddyn mae tua 1500 o ymgeiswyr newydd yn gwneud cais llwyddiannus i ymuno â'r gofrestr tai cymdeithasol, tra bod tua 100 o ymgeiswyr yn gwneud cais i ymuno â'r cynllun PCI; Help2Own Plus.

Mae'r tabl a ganlyn yn manylu ar nifer y tai fforddiadwy newydd sy'n cael eu hadeiladu bob blwyddyn yn Nhorfaen (gan gynnwys rhent cymdeithasol, rhent canolradd a pherchnogaeth cost isel), nifer yr ymgeiswyr sy'n cael cartref bob blwyddyn drwy'r gofrestr tai cymdeithasol, nifer y ceisiadau newydd a dderbyniwyd bob blwyddyn i ymuno â'r gofrestr tai cymdeithasol a nifer yr ymgeiswyr ar y gofrestr tai ar ddechrau pob blwyddyn.

Ffigur 49 Cyflenwad Blynnyddol o Dai Fforddiadwy 2016 - 2021

	16-17	17-18	18-19	19 - 20	20 - 21
Tai Fforddiadwy a Gyflenwyd²⁴	97	132	121	141	---
Nifer a gynorthwywyd drwy Helpu i Brynu²⁵	33	96	131	137	62
Nifer a gafodd cartref drwy Homeseeker	805	749	730	791	611
Ceisiadau newydd i Homeseeker	1637	1492	1709	1590	1611
Cofrestr Homeseeker (1 Ebrill)	2626	2513	2684	2881	2894

Ffynhonnell: Cofrestr Tai Gyffredin Torfaen

Mae'r tabl yn dangos bod cyflenwad tai fforddiadwy (newydd a phresennol) bob blwyddyn yn annigonol i wneud iawn am y galw gan y sawl sy'n gwneud cais am dai cymdeithasol newydd, heb sôn am fynd i'r afael â'r ôl-groniad ar y gofrestr tai. Yn ogystal, mae diwygiadau lles wedi golygu, hyd yn oed pan fydd rhywun yn cael mynediad i dai cymdeithasol, nad oes bellach yr un lefel o sicrwydd a arferai fodoli ar un adeg, gyda chapiau budd-daliadau, cymorthdaliadau ystafell sbâr a gostyngiadau mewn budd-daliadau tai (i'r rheini da 35 oed) yn arwain at effeithiau sylweddol.

Peth arall sy'n achosi pwysau yw bod llawer o aelwydydd sy'n ceisio tai, bellach yn wynebu pwysau ychwanegol ac, mewn ambell i achos, mae ganddynt anghenion mwy cymhleth. Mae'r gofrestr tai ar hyn o bryd yn cynnwys:

- 652 o ymgeiswyr sengl o dan 35 (sy'n teimlo effaith y cymhorthdal ystafell sbâr)
- 286 o ymgeiswyr angen eiddo wedi'i addasu
- 450 o ymgeiswyr sydd angen cymorth a chefnogaeth oherwydd iechyd meddwl
- 226 o ymgeiswyr sydd angen symud oherwydd angen meddygol
- 87 o ymgeiswyr sydd angen cymorth a chefnogaeth oherwydd cam-drin domestig
- 145 o ymgeiswyr heb ystafell wely
- Mae 17% o ymgeiswyr sydd angen tai cymdeithasol ar hyn o bryd dros 65 oed;
- Mae 68% o ymgeiswyr sy'n aros am eiddo wedi'i addasu dros 55 oed.

Mae'r pandemig wedi ategu ymhellach at y pwysau a rhagwelir y byddant yn cynyddu ymhellach oherwydd diweithdra, amgylchiadau ariannol sy'n gwaethygu a dirywiad mewn iechyd meddwl a lles ymhlith y boblogaeth.

Pwyntiau Allweddol:

- Ni yw cael tŷ yn fforddiadwy nac yn gyraeddadwy i lawer o aelwydydd ifanc
- Nid yw'r ddarpariaeth tai fforddiadwy yn cyd-fynd â'r galw
- Nid yw tai cymdeithasol bellach yn rhoi'r un sicrwydd i bobl ifanc
- Yn aml mae gan y rhai sy'n gwneud cais am dai anghenion mwy cymhleth, a all gynyddu'r amser y mae'n ei gymryd i dai addas ddod ar gael
- Mae angen ystyried atebion amgen i gynyddu nifer yr opsiynau tai addas sydd ar gael.

²⁴ Y ddarpariaeth tai cymdeithasol fforddiadwy ychwanegol yn ôl lleoliad a blwyddyn,


<https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Affordable-Housing/Provision/additionalaffordablehousingprovision-by-location-year> [Cyrchwyd 04.12.2020]

²⁵ Help i Brynu – Cymru, Tai a brynwyd ac a gwblhawyd y trafodion fesul awdurdod lleol a dyddiad <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Help-To-Buy/completedpurchases-by-la-date> [Cyrchwyd 10.06.2021]

Y Porth Cymorth Tai

Yn ystod 2020/21, derbyniodd y Porth Cymorth Tai yn Nhorfaen 3171 o atgyfeiriadau am gymorth. Rhannwyd y rhain i'r categorïau canlynol:

Ffigur 50 Cyflenwi'r Gwasanaeth Grant Cymorth Tai



Mae'r galw am wasanaethau wedi parhau'n uchel, yn enwedig o ran iechyd meddwl, cam-drin domestig, pobl dros 55 oed a chymorth cyffredinol, sy'n cynnwys cynhwysiant ariannol, digartrefedd a chysgu ar y stryd.


Ffigur 51 Atgyfeiriadau Uchaf am Gymorth

Categori	%	Cyfanswm
Dros 55	10.8	341
Cam-drin Domestig (Menywod)	15.9	503
Iechyd meddwl	18.4	584
Cymorth Cyffredinol	31.5	999

Mae'r galw am wasanaethau iechyd meddwl yn Nhorfaen hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn data misol gan y Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (GCIMSLI)²⁶, a ddangosodd mai Bwrdd Iechyd Athrofaol Aneurin Bevan (BIAAB) oedd â'r lefel uchaf o atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau GCIMSLI yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod gan BIAAB hefyd yr ail nifer uchaf o drigolion, ar ôl Betsi Cadwaladr, felly bydd hyn yn anochel yn cael rhywfaint o effaith ar nifer yr atgyfeiriadau a dderbynnir.

²⁶ StatsCymru, <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Mental-Health/Mental-Health-Measure/Part-1/referralsforalpmhssassessment-by-lhb-month>, [Cyrchwyd 07.12.2020]

Ffigur 52 Atgyfeiriadau am Asesiad GCIMSLI



Ffynhonnell: Casglu data Mesur Iechyd Meddwl (Cymru), Llywodraeth Cymru

Diffyg Manteisio – lleoedd gwag

Gyda rhai eithriadau, mae lefelau manteisio ar draws y rhaglen GCT wedi bod yn uchel iawn, gyda'r rhan fwyaf o wasanaethau'n darparu cefnogaeth i mwy na'u nifer o unedau dan contract.

Mae'r tabl a ganlyn yn manylu ar y lefelau manteisio ar gyfer pob gwasanaeth fesul chwarter yn ystod 2020/21:

Ffigur 53 Diffyg Manteisio fesul Chwarter

2020/21	Ch1		Ch2		Ch3		Ch4	
Enw'r Darparwr	Diffyg	Manteisio	Diffyg	Manteisio	Diffyg	Manteisio	Diffyg	Manteisio
Cyfannol - Cymorth i Fenywod– Ymyrraeth Cymunedol	0.00%	803.23%	0.00%	938.71%	0.00%	667.74%	0.00%	445.16%
Cyfannol -Cymorth i Fenywod - Lloches	0.00%	381.82%	0.00%	409.09%	2.37%	218.18%	0.00%	200.00%
Hafan TFS	0.00%	130.00%	0.00%	152.00%	0.00%	154.00%	0.00%	280.00%
Platfform - Cymorth Lle Bo Angen	0.00%	134.07%	0.00%	134.07%	0.00%	125.19%	0.00%	125.19%
Platfform Tai	0.62%	106.25%	1.56%	100.00%	0.00%	150.00%	0.00%	200.00%
Platfform- IM a Digartrefedd	0.00%	280.00%	0.00%	340.00%	0.00%	340.00%	0.00%	340.00%
Platfform - STEP	0.00%	193.33%	0.00%	166.67%	5.17%	126.67%	20.82%	113.33%
Pobl – Cymorth Lle Bo Angen G&T	0.00%	225.00%	0.00%	245.00%	0.00%	445.00%	0.00%	305.00%
Pobl – Lwybrau Gwent	0.00%	210.71%	0.00%	178.57%	0.00%	203.57%	0.00%	189.29%
Pobl – Oedolion Bregus	0.00%	145.00%	0.00%	121.25%	0.00%	120.00%	0.00%	133.75%

Pobl – Camddefnyddio Sylweddau, Cymorth Lle Bo Angen	0.00%	162.50%	0.00%	137.50%	0.19%	137.50%	3.85%	112.50%
Pobl – Anghenion Cymhleth PI – Gwasanaeth Ymaddasu	0.00%	133.33%	0.00%	150.00%	0.00%	156.67%	0.00%	126.67%
Solas Hales House	0.00%	100.00%	0.33%	155.00%	0.92%	105.00%	2.75%	130.00%
The Wallich - Argyfwng	27.77%	102.50%	28.88%	120.00%	29.18%	97.50%	39.04%	100.00%
The Wallich – Cymorth Lle Bo Angen	0.00%	137.33%	0.00%	164.00%	0.00%	180.00%	0.00%	145.33%
CBS Torfaen – Cynhwysiant Ariannol	0.00%	130.00%	0.00%	122.50%	13.62%	120.00%	15.19%	117.50%
CBS Torfaen – Opsiynau Tai – Gwasanaeth Atal Digartrefedd	0.00%	100.00%	0.00%	100.00%	0.00%	0.00%	0.00%	200.00%
CBS Torfaen – Dewisiadau Tai-Peilot Iechyd Meddwl	0.00%	130.00%	0.00%	200.00%	0.00%	0.00%	0.00%	200.00%
CBS Torfaen YPHO	1.35%	237.50%	0.00%	262.50%	0.00%	0.00%	0.00%	362.50%
Gwasanaeth PH Torfaen	0.00%	117.60%	0.00%	112.40%	4.02%	151.20%	1.29%	113.60%

Mae'n werth nodi bod y Porth wedi derbyn 4394 o atgyfeiriadau yn ystod 2019/20, ond yn 2020/21, roedd hyn wedi gostwng i 3171; gostyngiad o bron i 30%. Roedd yna hefyd ddifffyg manteisio ar wasanaethau argyfwng a chynhwysiant ariannol, a dderbyniodd niferoedd is o atgyfeiriadau yn ystod y pandemig o gymharu â blynyddoedd eraill.

Credir mai'r rheswm dros y gostyngiad hwn mewn atgyfeiriadau yw'r pandemig, a arweiniodd at ostyngiad mewn gwasanaethau wyneb yn wyneb a sesiynau galw heibio. Yn ogystal, mae polisïau dros dro'r llywodraeth, a roddodd fwy o amddiffyniad i denantiaid a'r rhai sy'n profi anawsterau tai, wedi golygu efallai nad yw defnyddwyr gwasanaethau wedi troi at gymorth, oherwydd nid oedd bygythiad iddynt golli eu llety yn sydyn. Fodd bynnag, mae trafodaethau â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig lleol wedi nodi bod ôl-ddyledion rhent yn codi a phan fydd y mesurau diogelu dros dro hyn gan y llywodraeth yn cael eu dileu, mae'n debygol y bydd ymchwydd sylweddol yn y galw am gymorth, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau argyfwng a chynhwysiant ariannol.

Eto i gyd, hyd yn oed gyda'r gostyngiad mewn atgyfeiriadau yn ystod 2020/21, mae'r tabl yn dangos yn glir bod gwasanaethau eraill; yn enwedig Cymorth i Fenywod Cyfannol, wedi defnyddio nifer sylweddol o unedau a bod y galw am wasanaethau yn parhau'n uchel

Amserau Aros

Er gwaethaf lefelau uchel o alw mewn rhai meysydd, mae'r Porth wedi llwyddo i gadw i fyny ag atgyfeiriadau ac yn 2020/21, mae ei amserau aros ar gyfartaledd tua 13 diwrnod. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio yn dibynnu ar y gwasanaeth cymorth sydd ei angen, gyda cham-drin domestig a throseddau yn uwch na rhai o'r gwasanaethau eraill:

Ffigur 54 Amserau Aros am Atgyfeiriad 2020/21

Gwasanaeth	Amser
Cyffredinol	8 diwrnod
Cam-drin Domestig	35 diwrnod
Troseddau	28 diwrnod
Iechyd Meddwl	14 diwrnod
Cam-ddefnyddio Sylweddau	14 diwrnod
Anabledd Dysgu/Corfforol Synhwyraidd	12 diwrnod

Dylid nodi bod galw mawr iawn am wasanaethau iechyd meddwl hefyd, ond nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr amseroedd aros. Y rheswm am hyn yw bod gweithwyr cymorth wedi

bod yn ymgymryd â chapasiti ychwanegol ac mae'r rhaglen GCT wedi cynyddu'r cymorth a ddarperir yn y maes hwn i helpu i reoli'r galw. Mewn ambell achos, roedd y diffyg gallu i gynnal ymweliadau cartref sy'n cymryd mwy o amser yn golygu bod gweithwyr cymorth yn gallu codi cleientiaid ychwanegol a'u cynorthwyo o bell. Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae iechyd meddwl yn parhau i fod yn faes lle mae angen sylweddol ac mae'n edrych fel y bydd yn parhau i gynyddu yn y dyfodol.

Mae'r Porth hefyd wedi mynd ati i weithio gyda darparwyr gwasanaethau i fynd i'r afael ag anghenion cleientiaid yn y ffordd orau posibl. Mae hyn wedi cynnwys atgyfeirio cleientiaid am gymorth ar unwaith gyda darparwr gwasanaeth a allai fynd i'r afael â rhai o'u hanghenion lefel isel yn gyntaf, tra eu bod yn aros tan fod cymorth mwy penodol ar gael. Drwy ddefnyddio'r dull hwn, mae'r Porth wedi sicrhau bod yr holl gleientiaid yn cael rhywfaint o gymorth ac nad oeddent yn cael eu gadael ar y rhestr aros am gyfnodau hir heb unrhyw gyswllt na chymorth.

Ymestyn y Cymorth

Yn ystod 2020/21, cafodd y Porth fwy o geisiadau i ymestyn y cymorth.

- Yn 2019/20, cafodd 69 o geisiadau i ymestyn y cymorth eu prosesu
- Yn 2020/21 cafodd 151 o geisiadau i ymestyn y cymorth eu prosesu

Roedd hyn yn gynydd o 55%, sy'n dangos, er bod gostyngiad yn nifer cyffredinol yr atgyfeiriadau yn ystod 2020/21, roedd gan rai o'r rheini a oedd yn cael cymorth, anghenion mwy cymhleth neu roedd angen cymorth arnynt am gyfnodau hwy o amser.

Demograffeg

Daeth atgyfeiriadau ar gyfer y Porth gan ymgeiswyr o bob oed, ond roedd llawer mwy o geisiadau ar gyfer y rhai 16 – 34 oed na'r rhai dros 55 oed.

Ffigur 55 Atgyfeiriadau yn ôl Oedran

Oed	Nifer
16 - 34	1528
35 - 54	1095
55 - 74	456
75+	92
Cyfanswm	3171

Ffigur 56 Atgyfeiriadau yn ôl Rhyw

Rhyw	Nifer	%
Menywod	1827	57.62
Dynion	1344	42.38
Cyfanswm	3171	

Atgyfeiriadau a Wrthodwyd

Cafodd 688 (21%) o'r 3171 o atgyfeiriadau a dderbyniwyd yn ystod 2020/21 eu gwrthod. Roedd y rhesymau dros wrthod yn amrywio, ond yr achos mwyaf cyffredin oedd methu â chysylltu.

Ffigur 57 Rhesymau dros Wrthod Atgyfeiriadau

Rheswm dros Wrthod	Cyfanswm	%
Wedi dychwelyd i gartref y teulu, cau'r gwasanaeth	2	0.29
Eithrio o'r prosiect dros dro	2	0.29
Wedi mynd i'r ysbyty	3	0.44
Wedi mynd i'r carchar	6	0.87
Ddim yn deall meini prawf y gwasanaeth	8	1.16
Ddim mewn ardal ddaearyddol addas	11	1.59
Anghenion cymorth yn rhy uchel / isel	13	1.89
Wedi'i dderbyn yn yr asesiad ond diffyg ymgysylltu am gymorth	14	2.03
Wedi symud / symud allan o'r ardal	20	2.9
Eisoed wedi mynd i'r afael a materion erbyn bod y cymorth yn cychwyn	23	3.34

Eisoes yn derbyn cymorth gan asiantaeth arall	44	6.39
Nid yw'r gwasanaeth yn addas i'r client	50	7.26
Ddim am gymorth / newid meddwl	133	19.3
Cyfeiriwyd at wasanaeth mwy priodol	160	23.22
Methu â chysylltu	200	29.03
Cyfanswm	689	100%

Mae dadansoddiad agosach o'r atgyfeiriadau a wrthodwyd wedi dangos bod ymgeiswyr mewn rhai grwpiau cleientiaid yn dangos cyfradd wrthod uwch nag eraill. Gall hyn fod yn gymharol â nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer y grŵp cleient hwn; gyda chymorth cyffredinol ac iechyd meddwl sydd â'r nifer uchaf o atgyfeiriadau a'r nifer uchaf o wrthodiadau. Serch hynny, mae nifer y gwrthodiadau ar gyfer iechyd meddwl yn parhau i fod yn bryder, oherwydd ei fod yn cyfrif am tua 1/3 o'r holl achosion a wrthodwyd.

Ffigur 58 Atgyfeiriadau a Wrthodwyd fesul Grŵp Cleientiaid

Grŵp Cleientiaid	Nifer	%
Pobl ifanc 16-24 oed ag anghenion cymorth	36	5.22
Pobl â hanes o drosedd	48	6.97
Pobl 55+ oed ag anghenion cymorth	53	7.69
Merched sy'n dioddef cam-drin domestig	93	13.50
Cyffredinol (ystod o anghenion cymorth)	102	14.80
Pobl â phroblemau iechyd meddwl	225	32.66

Pan ddadansoddwyd gwrthodiadau yn ôl ystod oedran, dangosodd fod tua hanner y gwrthodiadau gan gleientiaid iau (16 – 34 oed).

Ffigur 59 Atgyfeiriadau a Wrthodwyd fesul Oedran

Grŵp Cleientiaid	16 - 34	35 - 54	55 - 74	75+	Cyf.
Wedi'i dderbyn yn yr asesiad ond diffyg ymgysylltu am gymorth	7	7			14
Eisoes yn derbyn cymorth gan asiantaeth arall	24	15	4	1	44
Ddim yn deall meini prawf y gwasanaeth	3	4	1		8
Ddim am gymorth / newid meddwl	61	42	26	4	133
Wedi mynd i'r Ysbyty		1	1	1	3
Wedi mynd i'r carchar	4	1	1		6
Eisoes wedi mynd i'r afael a materion erbyn bod y cymorth yn cychwyn	11	6	4	2	23
Symud / symud allan o'r ardal	10	9	1		20
Methu â chysylltu	78	103	17	2	200
Ddim mewn ardal ddacaryddol addas	3	6	2		11
Wedi dychwelyd i gartref y teulu, cau'r gwasanaeth	2				2
Nid yw'r gwasanaeth yn addas i'r client	23	18	7	2	50
Cyfeiriwyd at wasanaeth mwy priodol	102	45	10	3	160
Anghenion cymorth yn rhy uchel / isel	6	7			13
Wedi ei eithrio dros dro o'r prosiect	1	1			2
Cyfanswm	335	265	74	15	689

Dadansoddiad o'r Bylchau

Nod y rhaglen GCT yn Nhorfaen yw darparu ystod eang o wasanaethau cymorth i ddiwallu gwahanol anghenion y boblogaeth a'r lefelau gwahanol o gymorth sydd eu hangen.

Cynhaliwyd dadansoddiad o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael, fel y nodir yn y siart isod:

Ffigur 60 Matrics Gwasanaeth

	12+ Hirdymor	3- 12 Mis	3 Mis
Uchel iawn	Llety Hostel (24/7)	Llety Hostel	Llety Hostel
Uchel	Lloches Iechyd meddwl (llety â chymorth) Digartrefedd Tai yn Gyntaf Person Ifanc (llety â chymorth) Prawf / Cyn-droseddu	Lloches Iechyd meddwl Digartrefedd Cysgu Ar y Stryd (llety â pheth cymorth) Prawf / Cyn-droseddu	Lloches Iechyd meddwl Digartrefedd Cysgu Ar y Stryd (llety â pheth cymorth) Allgymorth Pendant – Cysgu ar y Stryd Galw Heibio Argyfwng Galw Heibio Cam-drin Domestig Camddefnyddio Sylweddau Rhyddhau o'r Carchar
Canolig	Cam-drin Domestig Teuluoedd Bregus Camddefnyddio Sylweddau Person Ifanc ag Angen Cymhleth Sipsiwn a Theithwyr Iechyd meddwl Tai yn Gyntaf	Prawf/Cyn-droseddu Ymyrraeth Tai Cynhwysiant Ariannol Cam-drin Domestig Teuluoedd Bregus Camddefnyddio Sylweddau Person Ifanc ag Angen Cymhleth Sipsiwn a Theithwyr Cynhwysiant Ariannol LHDTC+ Teuluoedd yn Gyntaf Oedolion Bregus Iechyd Meddwl Pobl Ifanc Cyffredinol	Rhyddhau o'r Carchar Ymyrraeth Tai Cam-drin Domestig – Galw Heibio Cynhwysiant Ariannol Iechyd Meddwl - Galw Heibio i Bobl Ifanc Rhyddhau o'r Ysbyty
Isel	Larymau	Cymorth Llety Dros Dro Cyffredinol	Cymorth Ariannol Iechyd meddwl
Isel iawn/ Ddim yn gwybod	Larymau	Gweithgarwch Cymorth Cysylltiedig â Thai	Gweithgarwch Cymorth Cysylltiedig â Thai

Mae'r siart yn dangos yn glir bod gan Dorfaen ystod eang o gymorth ar gael ar bob lefel ac sy'n cwmpasu ystod o amserlenni .

Pwyntiau Allweddol:

- Mae Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai yn parhau i fod yn hanfodol i gynorthwyo aelwydydd.
- Roedd angen cymorth cyffredinol fwyaf yn 2020/21, a oedd yn cynnwys cynhwysiant ariannol, digartrefedd a gwasanaethau cysgu ar y stryd. Mae'n debygol y bydd galw mawr am y rhain yn ystod y 12 mis nesaf, wrth i ni deimlo canlyniadau'r pandemig.
- Mae'r galw am wasanaethau Iechyd Meddwl a Cham-drin Domestig hefyd yn parhau'n uchel, tuedd sydd wedi'i adlewyrchu ledled y DU yn ystod Pandemig Covid 19.

- Mae cyfraddau gwrthod yn uchel, sy'n codi pryderon ynghylch ymgysylltu, a gallu'r cleientiaid i fynd ati i ddefnyddio gwasanaethau, yn enwedig y rheini ag anghenion cymhleth a ffyrdd anhrefnus o fyw.
- Daeth mwy o atgyfeiriadau gan gleientiaid iau na'r rhai dros 55 oed, ond roedd mwy o wrthodiadau gan y grŵp oedran hwn hefyd.
- Mae nifer yr atgyfeiriadau sy'n gofyn am estyniad hefyd wedi cynyddu.
- Rhagwelir y gall fod cynnydd mewn atgyfeiriadau cymorth unwaith y bydd y mesurau diogelu a roddwyd ar waith i'r rheini oedd yn rhentu yn ystod y pandemig wedi'u dileu.

Canlyniadau'r Rhaglen Cymorth Tai

Anghenion Arweiniol

Mae data'r Porth wedi dangos bod yr 'anghenion arweiniol' canlynol, fwyaf cyffredin ymhlith defnyddwyr gwasanaethau yn Nhorfaen yn ystod 2020/21:

- Cymorth Cyffredinol
- Iechyd Meddwl
- Dros 55
- Cam-drin Domestig (Menywod)

Mae'r adran ganlynol bellach yn edrych yn fanylach ar y manteision i'r defnyddwyr gwasanaethau yn dilyn y cymorth a'r canlyniadau a gyflawnwyd.

Ionawr i Fehefin 2020

Rhwng Ionawr a Mehefin 2020, cofnodwyd cyfanswm o 1668 o ganlyniadau defnyddwyr gwasanaethau. Yn ôl y disgwyl, roedd mwyafrif y canlyniadau a gyflawnwyd mewn perthynas â'r 4 prif angen sydd eisoes wedi'u nodi fel y rhai mwyaf toreithiog.

Ffigur 61 Anghenion Arweiniol – Ion-Fehefin

Canlyniadau	(Ion – Feh. 20)	%
Cyffredinol	329	20%
Iechyd Meddwl	367	22%
Dros 55	394	24%
Cam-drin Domestig (M)	136	8%
Is-gyfanswm	1226	74%
Cyfanswm Terfynol	1668	

Canlyniadau Allweddol

Mae'r tabl canlynol yn edrych ar y 4 angen arweiniol ac yna'n eu cymharu â'r 11 canlyniad i weld pa rai oedd yn berthnasol.

Ffigur 62 Angen Arweiniol yn ôl Canlyniad – Ion - Fehefin

Perthnasol o ran Canlyniad ²⁷												
	Canlyniadau (Cyfanswm)	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11
Cyffredinol	328	103	93	325	106	64	259	21	21	83	121	37
Iechyd Meddwl	367	86	76	339	73	71	326	26	28	60	367	113
Dros 55	394	158	43	303	233	62	266	23	21	138	113	136
CD (D)	136	133	121	125	113	78	90	26	18	50	94	69

Roedd yn amlwg bod rhai canlyniadau a oedd yn fwy perthnasol i ddefnyddwyr gwasanaeth nag eraill. Er enghraifft, o dan 'Cyffredinol', nododd 325 o'r 329 o ddefnyddwyr gwasanaethau fod Canlyniad 3 - Rheoli Llety yn ganlyniad perthnasol, a dim ond 21 a nododd Ganlyniad 7 a Chanlyniad fel canlyniad perthnasol. Mae Ffigur 63 yn edrych yn fanylach ar y canlyniadau mwyaf cyffredin o fewn y 4 grŵp angen arweiniol hyn.

Ffigur 63 Canlyniadau Mwyaf Perthnasol- Ion i Fehefin

Canlyniadau	Cyffredinol	Iechyd Meddwl	Dros 55	Cam-drin Domestig (M)
1. Teimlo'n ddiogel	31.40	23.40	40.10	97.80
2. Cyfrannu at ddiogelwch	28.40	20.70	10.90	89
3. Rheoli llety	99.10	92.40	76.90	91.9
4. Rheoli perthnasoedd	32.30	19.90	59.10	83.10
6. Rheoli arian	79	88.80	67.50	66.20
9. Iach yn gorfforol	25.30	16.30	35	36.80
10. Iach yn feddyliol	36.90	100	28.70	69.10
11. Arwain ffordd o fyw iach a gweithgar	11.3	30.8	34.50	50.70

Mae rhai canlyniadau yn fwy perthnasol i'r anghenion arweiniol penodol h.y. iach yn feddyliol i'r rhai sydd ag angen arweiniol am iechyd meddwl. Fodd bynnag, roedd rheoli llety a rheoli arian yn ganlyniadau sy'n uchel yn gyson ar draws y 4 angen arweiniol.

Gorffennaf i Ragfyr 2020

Rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2020, cofnodwyd cyfanswm o 1699 o ganlyniadau defnyddwyr gwasanaethau, ac roedd 1285 (75.6) ohonynt yn erbyn yr un 4 o anghenion arweiniol:

Ffigur 64 Anghenion Arweiniol - Gorff i Rag

Canlyniadau	(Gorff - Rag 20)	(%)
Cyffredinol	364	21.4%
Iechyd Meddwl	358	21.1%
Dros 55	410	24.1%
Cam-drin Domestig (M)	153	9%
Is-gyfanswm	1285	75.6%
Cyfanswm Terfynol	1699	

²⁷ 1 Teimlo'n ddiogel, 2 - Cyfrannu at eu diogelwch a'u lles eu hunain ac eraill, 3 - Rheoli llety, 4 - Rheoli perthnasoedd, 5 - Teimlo'n rhan o'r gymuned, 6 - Rheoli arian, 7 - Cymryd rhan mewn dysgu, 8 - Cymryd rhan mewn cyflogaeth/gwaith gwirfoddol, 9 – Iach yn gorfforol, 10 - Iach yn feddyliol, 11 - Arwain ffordd o fyw iach a gweithgar

Canlyniadau Allweddol

Mae'r tabl canlynol yn edrych ar y 4 angen arweiniol hyn ac yna'n eu cymharu â'r 11 canlyniad.

Ffigur 65 Angen Arweiniol yn ôl Canlyniad – Gorff i Rag

Perthnasol o ran Canlyniad ²⁸												
	Canlyniadau (Cyfanswm)	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11
Cyffredinol	364	99	92	353	100	70	268	29	25	84	138	45
Iechyd Meddwl	358	104	68	338	60	69	322	25	28	57	357	89
Dros 55	410	177	40	323	225	68	248	24	17	152	109	128
CD (M)	153	150	131	139	40	22	88	31	25	55	94	79

Mae'r canfyddiadau'n debyg iawn i'r rhai rhwng Ionawr a Mehefin, gyda rheoli llety a rheoli arian yn ganlyniadau pwysig i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau eraill yn parhau i fod yn fwy perthnasol i rai grwpiau angen arweiniol. Er enghraifft, mae teimlo'n ddiogel, iechyd meddwl a byw bywyd iach yn fwy perthnasol i fenywod sy'n wynebu cam-drin domestig, nag ydynt i bobl dros 55 oed.

Ffigur 66 Canlyniadau Mwyaf Perthnasol – Gorff-Rag

Canlyniadau	Cyffredinol	Iechyd Meddwl	Dros 55	Cam-drin Domestig (M)
1. Teimlo'n ddiogel	27.2	29.1	43.2	98
2. Cyfrannu at ddiogelwch	25.3	18.9	9.8	85.6
3. Rheoli llety	96.9	94.4	78.8	90.8
4. Rheoli perthnasoedd	27.5	16.8	54.9	26.1
6. Rheoli arian	73.6	89.9	60.5	57.5
9. Iach yn gorfforol	23.1	15.9	37.1	35.9
10. Iach yn feddyliol	37.9	99.7	26.6	61.4
11. Arwain ffordd o fyw iach a gweithgar	12.4	24.9	31.2	51.6

Pwyntiau Allweddol:

- Mae'r 4 maes angen mwyaf cyffredin yn gynrychioliadol o ganfyddiadau mewn meysydd ymchwil eraill yn yr asesiad hwn.
- Mae canlyniadau a gyflawnir yn aml yn adlewyrchu angen arweiniol yr ymgeisydd
- Mae rheoli llety a rheoli arian yn parhau'n gyson uchel ar draws y 4 prif grŵp angen arweiniol.

²⁸ 1 Teimlo'n ddiogel, 2 - Cyfrannu at eu diogelwch a'u lles eu hunain ac eraill, 3 - Rheoli llety, 4 - Rheoli perthnasoedd, 5 - Teimlo'n rhan o'r gymuned, 6 - Rheoli arian, 7 - Cymryd rhan mewn dysgu, 8 - Cymryd rhan mewn cyflogaeth/gwaith gwirfoddol, 9 – Iach yn gorfforol, 10 - Iach yn feddyliol, 11 - Arwain ffordd o fyw iach a gweithgar

Asesiad Anghenion Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Gwent

Roedd yr asesiad anghenion yn dadansoddi gwybodaeth gan wahanol asiantaethau sy'n bartneriaid, yn ogystal ag ymgynghori â goroeswyr a staff cymorth i;

- ddeall yn well, anghenion y rhai y mae VAWDASV yn effeithio arnynt
- helpu i nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth,
- llywio penderfyniadau sy'n ymwneud â chomisiynu gwasanaethau a
- mesur effaith Deddf VAWDASV (Cymru) 2015

Nododd yr asesiad feysydd o bryder a bylchau yn y ddarpariaeth:

- Cyfyngedig o ran llety brys â chymorth ym mhob ardal awdurdod lleol, ac eithrio Torfaen
- Ystyried cymorth gwasanaeth sy'n ymestyn ar draws ffiniau awdurdodau lleol
- Ymyraethau o ran y sawl sy'n cyflawni trosedd, a hynny ar sail tystiolaeth ledled Gwent
- Amlygwyd bod Gwasanaeth Ymgynghori Cam-drin Domestig Annibynnol Gwent (IDVA) yn faes sy'n peri pryder mewn perthynas â chomisiynu ac ariannu.
- Amserau aros a'r ffaith bod y cwnsela arbenigol sydd ar gael ar gyfer trais rhywiol yn gyfyngedig
- Diffyg gwybodaeth VAWDASV ar gael i'r rheini y mae VAWDASV yn effeithio arnynt
- Ymestyn hyfforddiant Gofyn a Gweithredu i'r holl staff sy'n delio â'r cyhoedd, yn enwedig y rhai yn yr Adran Tai a gwasanaethau sy'n darparu cymorth ar gyfer camddefnyddio sylweddau ac ieuchyd meddwl.

Cyllid

Mae ariannu a chomisiynu gwasanaethau arbenigol yng Ngwent yn gymhleth ac yn cael eu darparu gan asiantaethau amrywiol. Darperir y rhan fwyaf o'r cyllid gan y GCT fel y gwelir yn y tabl isod:

Ffigur 67 Cyllid GCT

Ardal Awdurdod Lleol	Gwasanaethau a ariennir	Cyllideb Flynyddol
Blaenau Gwent	Tai â Chymorth Dros Dro Cymorth fel y bo'r angen a Gwella Diogelwch	£375,650.35
Caerffili	Cymorth fel y bo'r angen Tai â Chymorth Dros Dro	£477,437.00
Sir Fynwy	Cymorth fel y bo'r angen Mynediad Uniongyrchol	£229,095.00
Casnewydd	Cymorth fel y bo'r angen Mynediad Uniongyrchol	£430,291.03
Torfaen	Cymorth fel y bo'r angen Mynediad Uniongyrchol	£410,771.28
Cyfanswm		£1,923,244.66

Mae Teuluoedd yn Gyntaf, cyllid refeniw a chyfalaf uniongyrchol Llywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent hefyd yn cyfrannu ac mae asiantaethau'n gwneud cais ac yn derbyn cyllid o ffynonellau eraill fel y Loteri Genedlaethol, rhoddion, refeniw hyfforddiant, ymyriadau a brynwyd yn y fan a'r lle a gweithgareddau eraill i godi arian.

Gall y cymhlethdodau ariannu ei gwneud hi'n anodd i ymarferwyr mewn sefydliadau partneriaeth ddeall pwysig sy'n darparu gwasanaethau ym mhob ardal awdurdod lleol ac mae

perygl hefyd y gellir methu neu ddyblygu gwasanaethau, gan achosi dryswch a bylchau mewn cymorth, sy'n cynyddu'r perygl na fydd gwasanaethau'n effeithiol nac yn diwallu anghenion a diogelwch y rhai sy'n cael cymorth.

Y Galw

Yn ôl Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr (CSEW) 2019, cofnodwyd 24,533 o ddigwyddiadau a throseddau yn ymwneud â cham-drin domestig yng Ngwent. Mae hyn yn cyfateb i 41 o ddigwyddiadau a throseddau ar gyfer pob 1,000 o'r boblogaeth.

Yn 2019/20, roedd gan Dorfaen gyfradd o 1.64 o droseddau rhyw am bob 1,000 o bobl, sy'n golygu ei fod yn un o'r lefelau uchaf yng Ngwent ac yn uwch na'r cyfartaledd yng Ngwent, sy'n 1.54 am bob 1000. Mae Torfaen wedi cael cyfradd gyson uchel o droseddau rhyw yn y blyneddoddi diwethaf, fel y dangosir yn y tabl isod:

Ffigur 68 Cyfraddau troseddau rhyw am bob 1000 o bobl

	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
Caerffili	1.3	1.44	1.31	2.21
Blaenau Gwent	1.25	1.42	1.55	2.23
Torfaen	1.65	1.64	1.45	2.58
Sir Fynwy	1.31	1.54	1.11	1.67
Casnewydd	1.29	1.64	1.92	2.48

Mae'r twf yn y boblogaeth ledled Gwent yn debygol o gynyddu lefelau'r galw am wasanaethau VAWDASV, fodd bynnag, mae'r gallu i gael dealltwriaeth fanylach a chynhwysfawr o raddau VAWDASV yng Ngwent yn parhau i fod yn heriol. Rhai o'r rhesymau am hyn yw nad yw cyfran fawr o VAWDASV yn cael ei hadrodd, neu lle mae data'n cael ei gofnodi, mae gwahaniaethau sylweddol yn digwydd sy'n golygu bod dadansoddi uniongyrchol yn amhosibl. Er enghraifft, mae rhai asiantaethau yn adrodd ar wahanol amserlenni, neu mae anghysondebau a bylchau yn y wybodaeth.

Argymhellion

Nododd yr asesiad anghenion 32 o argymhellion, y gellir eu categorio'n fras i'r meysydd canlynol:

- Casglu data mwy cadarn i wella'r broses o gomisiynu gwasanaethau
- Cynnal ymchwil pellach i ddeall gofynion yn well
- Mwy o weithio mewn partneriaeth, mwy o aliniad a darparu gwasanaethau ar y cyd
- Rhannu data ar draws partneriaid a sefydliadau
- Gwellu cyfathrebu a chyhoeddusrwydd o ran y gwasanaethau
- Mwy o ffocws ar rai meysydd allweddol sy'n peri pryder e.e. gwasanaethau iechyd rhywiol, tai ar gyfer y rhai ag anghenion cymhleth

Pwyntiau Allweddol:

- Mae gan Dorfaen un o'r cyfraddau uchaf o droseddau rhyw yng Ngwent am bob 1000 o bobl
- Mae ymyrraeth atal ac ymyrraeth gynnar, mwy o ymwybyddiaeth a chael hyd i wasanaethau yn bwysig.
- Mae diffyg data cadarn am raddau VAWDASV yng Ngwent
- Mae rhai mathau o wasanaethau a ddarperir yn llai digonol mewn rhai ardaloedd nag eraill
- Gall cymhlethdodau ariannu greu rhwystrau i ddarparu gwasanaethau

Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaethau a Rhanddeiliaid

Mae ymgysylltu cadarnhaol â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid yn bwysig er mwyn nodi anghenion presennol a lefelau galw, tra hefyd yn amlygu unrhyw fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir. Mae Torfaen, mewn partneriaeth â'i bartneriaid yng Ngwent, yn ymgynghori ac yn ymgysylltu rheolaidd â rhanddeiliaid i adolygu gwasanaethau'n barhaus a nodi blaenoriaethau.

Adborth yn dilyn Arolwg Defnyddwyr Gwasanaethau Gwent 2020 a 2021

Roedd Awdurdodau Lleol Gwent yn cydnabod mai'r rhai sy'n cael cymorth yw'r arbenigwyr o ran gwerthuso ansawdd y gwasanaethau y maen nhw'n eu derbyn. Mae eu profiad uniongyrchol yn eu rhoi yn y sefyllfa orau i benderfynu beth sy'n gweithio'n dda, beth sy'n llai effeithiol a pha welliannau sydd angen eu gwneud. Er mwyn helpu i gasglu'r wybodaeth hon, ymgynghorir â defnyddwyr gwasanaethau bob blwyddyn a gofynnir iddynt roi eu hadborth am y gwasanaethau y maent wedi'u derbyn.

Yn 2020, datblygwyd a dosbarthwyd arolwg ar-lein i gasglu ymatebion gan ddefnyddwyr gwasanaethau GCT yn ystod Pandemig Covid 19. Ymatebodd dros 350 o bobl o bob rhan o ardal Gwent i'r holiadur; dangosir dadansoddiad o'r ymatebion hyn fesul ardal isod:

Gofynnwyd i ymatebwyr roi adborth penodol ar eu profiadau o dderbyn cymorth yn ystod cyfyngiadau cyfnod clo coronafirws ac yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ymatebwyr yn teimlo bod eu gweithwyr cymorth wedi mynd gam ymhellach i'w helpu o dan amodau anodd iawn a bod cymorth yn hynod gadarnhaol.

Ffigur 69 Cwmwl Ymatebion



Roedd rhai meysydd lle cafodd ymatebwyr anawsterau yn ymwneud â'r pandemig, lle'r oedd eu sgiliau digidol yn gyfyngedig, roedd hi'n anodd cael hyd i dechnoleg, a gostyngiad mewn cymorth wyneb yn wyneb yn creu rhwystrau

Roedd meysydd eraill lle'r oedd ymatebwyr wedi nodi bylchau neu'n awgrymu gwelliannau yn cynnwys:

- Gwell marchnata / codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael
- Cynyddu capasiti a lleihau amseroedd aros am gymorth
- Darparu cymorth am gyfnod hwy (lefel isel)
- Darparu cymorth dwysach (mwy o gyswllt)
- Cymorth Seicolegol
- Siopa (o bosibl yn gysylltiedig â Chynhwysiant Digidol)

Yn 2021, gan adeiladu ar yr adborth a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad blaenorol, gofynnwyd eto i ddefnyddwyr gwasanaethau am eu profiadau o ran cael hyd i gymorth a derbyn cymorth, ond gyda phwyslais arbennig ar Gynhwysiant Digidol.

Amlygodd y canlyniadau fod yr holl ymatebwyr yn Nhorfaen naill ai'n Hapus neu'n Hapus lawn gyda'r gwasanaethau a gawsant drwy'r rhaglen GCT ac ni nodwyd unrhyw welliannau na blaenoriaethau penodol. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt am eu profiadau o ran defnyddio gwasanaethau ar-lein, dangosodd y canlyniadau ymatebion cymysg.

Dywedodd bron 50% o ymatebwyr nad oedd unrhyw rwystrau iddynt gael hyd i wasanaethau ar-lein a defnyddiodd llawer wasanaethau ar-lein i gael hyd i wasanaethau sylfaenol fel siopa, bancio, budd-daliadau a gwasanaethau tai. Fodd bynnag, nododd eraill ddiffyg gwybodaeth neu ddealltwriaeth a'r gallu cyfyngedig neu ddiffyg gallu yn gyfan gwbl i gael hyd i dechnoleg, a oedd yn peri problem. Roedd yna hefyd garfan fach ond arwyddocaol nad oedd eisiau mynd ar-lein na gwella eu sgiliau digidol.

Roedd y cwestiwn olaf yn gofyn i ddefnyddwyr gwasanaethau nodi, a fyddent, gyda hyfforddiant addas a'r gallu i gael hyd i offer TG, yn defnyddio gwasanaethau ar-lein i gael cymorth; dywedodd rhai y byddent ond atebodd dros 80% eu bod yn dal yn ffafrio cymorth wyneb yn wyneb.

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu, i rai defnyddwyr gwasanaethau, fod gwella eu sgiliau digidol yn rhywbeth y byddent yn elwa ohono, a gallai hyn fod yn rhywbeth y gall darparwyr cymorth eu cynorthwyo i'w gyflawni. Fodd bynnag, o ran darparu a chyflenwi gwasanaethau cymorth, wyneb yn wyneb yw'r dull a ffefrir o hyd ac nid oedd archwilio dulliau mwy digidol yn rhywbeth yr oedd llawer o ymatebwyr yn awyddus i'w groesawu.

Adborth gan Rhanddeiliaid Gwent 2020 a 2021

Yn ogystal ag ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, mae gwasanaethau GCT Gwent yn ymgynghori'n rheolaidd â darparwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill am y gwasanaethau a ddarperir yn lleol, i bennu meysydd lle mae pwysau a galw, bylchau yn y ddarpariaeth a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.

Gwahoddir ymatebion gan ystod eang o bartneriaid gan gynnwys darparwyr cymorth, adrannau awdurdodau lleol (gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yn y gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Oedolion a Thai), yn ogystal â phartneriaid ehangach gan gynnwys y Gwasanaeth Prawf, Iechyd, yr Heddlu a'r trydydd sector.

Yn 2020, y themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg yn dilyn yr ymgysylltu oedd:

- Ehangu a datblygu opsiynau llety
- Mwy o bartneriaethau cydweithredol a dulliau amlasiantaeth, gan hyrwyddo defnyddio adnoddau'n well, a lleihau dyblygu
- Gwella gweithio mewn partneriaeth gydag iechyd a datblygu swyddi iechyd penodol sy'n gweithio ym mhob ardal awdurdod lleol
- Canolbwyntio adnoddau ar wasanaethau mwy arbenigol, yn arbennig:
 - Anghenion cymhleth yn enwedig y rhai sy'n cysgu ar y stryd a'r rhai sydd â diagnosis deuol
 - Cynyddu opsiynau o ran llety a chymorth i'r rhai sy'n gadael carchar.
 - Datblygu ac ehangu'r ystod o wasanaethau iechyd meddwl sydd ar gael.
 - Cynyddu llety a gwasanaethau ar gyfer y rhai y mae VAWDASV yn effeithio arnynt gan gynnwys dioddefwyr sy'n ddynion, y rhai sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol, a dioddefwyr caethwasiaeth fodern.
 - Darparu ystod ehangach o wasanaethau i'r rhai ag anabledau

- Cynyddu'r cyfle i gael hyd i fudd-daliadau lles arbenigol a gwasanaethau cyngor ariannol
- Cynyddu sgiliau digidol
- Cynyddu a datblygu cyfathrebu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid a darparu cyfleoedd i rannu gwybodaeth ac arfer da
- Hyfforddiant gorfodol mewn meysydd allweddol i bob darparwr

Roedd ymyrraeth gynnar a dull ataliol hefyd yn bwysig, a phwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan gleientiaid, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac sy'n blaenoriaethu anghenion yr unigolyn.

Yn 2021, ymgynghorwyd ymhellach â rhanddeiliaid i nodi unrhyw fylchau neu themâu pellach a oedd wedi dod i'r amlwg dros y 12 mis diwethaf. Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn debyg iawn, gyda llety, anghenion cymhleth, yn enwedig iechyd meddwl, yn cael eu nodi eto fel meysydd o flaenoriaeth.

Amlygwyd pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a gwell cydweithio hefyd eto yn yr ymgynghoriad, ond dywedodd dros hanner yr ymatebwyr fod hyn wedi gwella yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd rhai o'r rhesymau dros y gwelliant hwn yn cynnwys gwell cyfathrebu a mwy o gyfarfodydd amlasiantaeth, gwell cysylltiadau rhwng rhai gwasanaethau iechyd cyhoeddus a thai, yn ogystal â gwell comisiynu ar y cyd. Fodd bynnag, teimlai ymatebwyr eraill fod y rhain yn dal i fod yn feysydd i'w gwella ymhellach a bod dal angen gwell cydweithredu, ac mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Lleol

Yn ogystal â'r arolwg ar-lein, cynhaliodd Torfaen weithdy lleol gyda'i ddarparwyr GCT i archwilio rhai o'u pryderon a'u blaenoriaethau ymhellach, yn enwedig wrth fyfyrio ar yr heriau newydd a oedd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i bandemig coronafirws a sut i wella gwytnwch wrth fynd ymlaen.

Rhai o'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r gweithdy hwn oedd pan oedd cleientiaid yn gallu cael cymorth digidol yn ystod y pandemig, roedd hyn yn galluogi darparwyr i gefnogi mwy o bobl ac arbed amser teithio. Fodd bynnag, dim ond i rai cleientiaid yr oedd hyn yn gweithio ac roedd yn golygu nad oedd cleientiaid mwy bregus yn ymgysylltu, ac nad oedd modd o gadw golwg arnynt. Roedd hefyd lefelau gwahanol o hyfedredd digidol ymhlith staff cymorth a defnyddwyr gwasanaethau, neu ddiffyg offer TG addas, a oedd hefyd yn creu rhai problemau i'r darparwyr.

Nododd darparwyr rai heriau pellach a meysydd lle mae yna alw, a oedd wedi gwaethygu yn ystod y pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys cynnydd mewn iechyd meddwl, caledi ariannol, unigrwydd ac arwahanrwydd, ynghyd ag amseroedd aros uwch wrth i fwy o bobl geisio cael cymorth.

Roedd darparwyr hefyd yn wynebu pwysau ychwanegol o ran recriwtio, hyfforddi a chadw staff, a oedd yn llesteirio eu gallu i ddarparu gwasanaethau ac roedd rywfaint o'r ansicrwydd ynghylch cyllid yn ategu at hyn. Yn ogystal, roedd y diffyg argaeledd o fewn gwasanaethau eraill, yr oedd eu llwythi gwaith wedi cynyddu yn ystod y pandemig, yn ei gwneud yn anodd diwallu anghenion cleientiaid ag anghenion cymhleth, yr oedd angen iddynt gael hyd i wasanaethau mwy arbenigol.

Roedd rhai o'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd ganddynt fel darparwyr yn cynnwys mwy o gydweithredu a chydweithio ag ystod eang o bartneriaid, rhannu gwybodaeth a data, hyrwyddo a marchnata gwasanaethau a'u heffaith gadarnhaol, gwella hygyrchedd a dulliau digidol cynhwysol o gefnogi, a sicrhau amrywiaeth o opsiynau i ddiwallu anghenion unigolion.

Adborth ar ôl Adolygu'r Gwasanaeth

Mae'r Uned Gomisiynu yn adolygu'r gwasanaethau y maent yn eu comisiynu a hynny'n rheolaidd, i sicrhau eu bod yn cael eu darparu'n effeithiol. Fel rhan o'r adolygiad, caiff holiaduron eu dosbarthu i ddefnyddwyr gwasanaethau a chynhelir nifer o gyfweiliadau â ffocws, gan archwilio profiadau defnyddwyr gwasanaethau yn fanylach.

Rhai o'r themâu allweddol a ddeilliodd o'r adolygiadau oedd:

- Roedd cysondeb a dibynadwyedd gweithwyr cymorth yn bwysig i bobl o ran ymgysylltu â gwasanaethau er mwyn meithrin perthynas ac ymddiriedaeth.
- Mae pobl eisiau cymorth hyblyg ac ymatebol sydd ar gael, ac yn hygyrch y tu allan i oriau traddodiadol.
- Gweithwyr cymorth sy'n wybodus o ran prosesau digartrefedd a budd-daliadau.
- Arwahanrwydd a heriau o ran rheoli iechyd meddwl drwy gydol y pandemig yn dod i'r amlwg drwy'r adborth, ochr yn ochr â mwy o angen cymorth emosiynol.
- Rhwystredigaeth ynghylch y diffyg opsiynau amgen a symud ymlaen, yn enwedig yn ystod y pandemig.
- Mwy o gymorth emosiynol yn cael ei gynnig a'i groesawu trwy gydol y pandemig

Adborth ar ôl Monitro'r Gwasanaeth

Yn ogystal ag adolygu'r gwasanaeth, mae adborth parhaus yn cael ei gasglu a'i goladu i ddeall profiad defnyddwyr gwasanaethau yn well a'r canlyniadau a gyflawnwyd.

Arolwg o'r Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai

Mae'r Arolwg o'r Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai yn cael ei gwblhau gan ddefnyddwyr gwasanaethau sydd wedi defnyddio gwasanaethau cymorth drwy'r rhaglen GCT. Yn 2020, dywedodd 74 o ymatebwyr ei bod yn hawdd cael gafael ar gymorth a bod cymorth ar gael iddynt pan oedd ei angen arnynt. Gofynnodd yr arolwg wedyn i ymatebwyr, a oedd unrhyw faterion a oedd wedi gwneud ymgysylltu â chymorth yn anodd iddynt. Nodwyd y canlynol:

Ffigur 70 Rhwystrau i gymorth

Rhwystyr	%
Iechyd Meddwl	78.90
Iechyd Corfforol	28.90
Perthynas yn Chwalu	23.70
Materion Ariannol	23.70
Camddefnyddio Sylweddau	7.90

Fodd bynnag, yn dilyn cymorth, teimlai 65 o ymatebwyr eu bod bellach yn fwy abl i fyw'n annibynnol o ganlyniad i dderbyn cymorth

Y Gwasanaeth Atebion Tai

Bob mis, gofynnir i aelwydydd sydd wedi cysylltu â'r Gwasanaeth Atebion Tai am gyngor a chymorth i roi adborth ar eu profiadau.

- Roedd 92% o'r rheini a ymatebodd yn 2020 yn ei chael yn hawdd cyrchu'r gwasanaeth,
- Roedd 82% yn fodlon â'r gwasanaeth a wnaethant ei dderbyn.

Nododd yr ymatebwyr hefyd y canlyniadau a ganlyn, a gyflawnwyd o ganlyniad cael hyd i'r gwasanaeth:

Ffigur 71 Canlyniadau'r Cymorth

Canlyniadau	%
Hapusach	59.30
Llai o berygl o ddigartrefedd	55.60
Mwy o reolaeth ar fy sefyllfa	37.00
Mwy diogel yn yr eiddo	37.00
Gwell diogelwch personol	37.00
Medru sefydlu cartref fel y dymunaf	33.30
Mwy annibynnol	29.60
Hyder i gynnal tenantiaeth	29.60

Ymhlith y meysydd lle teimlai ymatebwyr fod angen gwelliannau neu lle'r oedd angen mwy o gymorth oedd:

- Mwy o lety brys a llety o safon uwch
- Mwy o Swyddogion Atebion Tai a diweddariadau mwy rheolaidd i ddefnyddwyr gwasanaeth
- Mwy o gymorth ac opsiynau ar gyfer gweithwyr llawn amser sy'n wynebu digartrefedd ac sydd yn aml dan anfantais ariannol mewn llety brys
- Mwy o wasanaethau wyneb yn wyneb

Pwyntiau Allweddol:

- Mae'n ymddangos bod gwasanaethau'n hygyrch ac yn gyffredinol mae defnyddwyr gwasanaethau'n hapus iawn gyda'r cymorth a gawsant
- Mae gweithwyr cymorth yn mynd gam ymhellach, yn enwedig ar adegau o argyfwng
- Angen gwasanaethau mwy arbenigol i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth / lluosog
- Bydd gwell cydweithio a gweithio amlasiantaeth yn gwella'r modd y darperir gwasanaethau ymhellach
- Effeithiodd Cynhwysiant Digidol ar rai defnyddwyr gwasanaethau, yn enwedig yn ystod y pandemig
- Mae mwy o opsiynau llety yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol o ran mynd i'r afael ag anghenion presennol
- Mwy o adnoddau i gynyddu capasiti, lleihau amseroedd aros a chynnig lefelau gwahanol o gymorth e.e. cymorth tymor hwy lefel isel a chymorth mwy dwys
- Mwy o gyfleoedd hyfforddi i bob darparwr mewn meysydd allweddol e.e. digartrefedd, camddefnyddio sylweddau
- Mwy o hyrwyddo / marchnata'r gwasanaeth sydd ar gael
- Mwy o hyblygrwydd o amgylch y cymorth a ddarperir e.e. ystyriaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau na allant gael cymorth yn ystod 'Oriau Swyddfa'
- Mwy o gysylltiadau ag ieuchyd a dulliau mwy cydgyssylltiedig o ddarparu gwasanaethau
- Mae rhai rhwystrau i gyrchu cymorth yn bodoli o hyd, yn enwedig oherwydd ieuchyd meddwl.

Ymchwil a Chyhoeddiadau Cenedlaethol

Atal cysgu ar y stryd yng Nghymru a'i leihau yn y tymor byr Hydref 2019

Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf i'w gyhoeddi gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ac mae'n mynd i'r afael â'r cwestiwn; pa gamau y gallwn eu cymryd ar unwaith i leihau nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd rhwng nawr a gaeaf 2019/20, ac i roi diwedd ar gysgu ar y stryd yn gyfan gwbl?

Rhai o'r argymhellion allweddol a wnaeth ymddangos yn dilyn yr adroddiad oedd:

- Dylai sefydliadau sy'n cyfathrebu am ddigartrefedd gytuno ar ddull cyffredin sy'n darparu gwybodaeth glir am yr hyn y gellir ei wneud yn y tymor byr i helpu pobl sy'n cysgu ar y stryd neu sy'n ddigartref, ac yn y tymor hwy beth allant ei wneud i helpu i roi diwedd ar ddigartrefedd.
- Mae angen dull 'dim drws anghywir' ar bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref
- Mae angen i wasanaethau gael gwared ar y rhwystrau a'r camddealltwriaeth sy'n atal pobl rhag cael hyd i'r cymorth sydd ei angen arnynt, gan gynnwys comisiynu gwasanaethau allgymorth a chymorth i hyrwyddo atebion parhaus sy'n cynorthwyo pobl i droi eu cefn ar ddigartrefedd am byth.

Adroddiad gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Mawrth 2020

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r fframwaith cyffredinol o bolisiau, cynlluniau a dulliau gweithredu y dylid eu rhoi ar waith i sicrhau bod digartrefedd yn brin, yn fyr ac nad yw'n cael ei ailadrodd, ac yna cyfres o argymhellion i gyflawni hyn.

Roedd yr argymhellion yn yr adroddiad yn cynnwys:

- Ymdeimlad o berchnogaeth a rennir i roi terfyn ar ddigartrefedd a sicrhau bod gan bawb gartref.
- Fframwaith canlyniadau y cytunwyd arnynt ac adrodd drwy brosesau Cyllideb Cymru i'r Senedd
- Atebolrwydd a chymorth ar y cyd rhwng gwasanaethau cyhoeddus.
- Mwy o gymorth a chydabyddiaeth i weithluedd, gan gynnwys ariannu a chefnogi dulliau seicolegol gwybodus ar draws gwasanaethau cyhoeddus; a galluogi gwirfoddolwyr a chymunedau i chwarae rhan.
- Ffocws ar urddas a pharch tuag at bobl sy'n wynebu digartrefedd a strwythurau cenedlaethol ar gyfer rhanddeiliaid, gan gynnwys pobl â phrofiad go iawn, i fwydo i mewn i gynllunio, cyflawni a gwerthuso'r holl waith

Un o'r argymhellion a nodwyd gan y grŵp oedd y dylai gwasanaethau cyhoeddus, darparwyr tai a darparwyr cymorth sicrhau bod pobl â phrofiad personol o ddigartrefedd yn cael cyfleoedd i ddylanwadu ar benderfyniadau a darparu a gwerthuso gwasanaethau i roi terfyn ar ddigartrefedd.

Drwy ymgysylltu'n rheolaidd â defnyddwyr gwasanaethau a cheisio eu barn am y gwasanaethau y maent wedi'u derbyn a sut y gellir eu gwella, mae Torfaen wedi datblygu cyfoeth o wybodaeth i'w helpu i ddarparu tai sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, tai sy'n effeithiol a gwasanaethau cymorth effeithiol sy'n gysylltiedig â thai.

Adroddiad i Weinidogion Cymru gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd Gorffennaf 2020

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi mwy o fanylion am ehangu dulliau ailgartrefu cyflym a phartneriaethau a chynlluniau cydgysylltiedig, fel y nodwyd yn adroddiad mis Mawrth ac mae hefyd yn ystyried effaith achosion coronafirws a'r ymateb.

Fel rhan o argymhelliad yr adroddiad, anogir Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'u partneriaid i barhau i weithio gyda landlordiaid cymdeithasol a phreifat i leihau a rhoi terfyn ar achosion o droi allan o gartrefi, sy'n arwain at ddigartrefedd, darparu cymorth i denantiaeth, a sicrhau bod gwasanaethau cysylltiadau tenantiaeth ar waith.

Cynllun Gweithredu ar gyfer Cysgu ar y Stryd Chwefror 2018

Roedd y Cynllun Gweithredu Dwy Flynedd yn adlewyrchu pryder Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn dilyn y cynnydd diweddar mewn achosion o gysgu ar y stryd ledled Cymru.

Mae'r Cynllun yn cynnwys 24 o bwyntiau yr oedd Llywodraeth Cymru am eu gweld yn cael eu rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â chysgu ar y stryd ac roedd yn ymdrin â'r meysydd a ganlyn:

- Atal
- Cymorth
- Allgymorth
- Llety mewn Argyfwng
- Tai yn Gyntaf
- Deddfwriaeth a chanllawiau statudol
- Mesur a Monitro
- Cyllido
- Cydweithio
- Hyrwyddo Arfer Da

Pwyntiau Allweddol:

- Mae atal ac ymyrryd yn gynnar yn dal i gael eu hystyried fel y ffyrdd mwyaf effeithiol o fynd i'r afael â digartrefedd, lleihau nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd a sicrhau bod pobl yn cael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i fyw'n annibynnol.
- Mae cyfathrebu cyson a chlir, ynghyd ag ymagwedd dim drws anghywir yn bwysig er mwyn helpu'r rhai mwyaf bregus i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt
- Gall gweithio mewn partneriaeth, cronni sgiliau a dulliau cydgysylltiedig fod yn fuddiol i ddiwallu anghenion
- Dylai defnyddwyr gwasanaethau sydd â phrofiad uniongyrchol o ddigartrefedd neu angen o ran cartref, chwarae rhan weithredol yn y gwaith o lunio'r gwasanaethau a ddarperir.

Strategaethau Allweddol Lleol a Rhanbarthol

Cynllun Llesiant Torfaen

Un o'r negeseuon allweddol sy'n dod i'r amlwg yn dilyn Asesiad Llesiant Torfaen yw bod anghydraddoldeb cynyddol ledled Torfaen. Roedd peth o'r wybodaeth a gasglwyd yn yr asesiad yn cadarnhau'r hyn a oedd yn hysbys eisoes; lleoliadau'r cymunedau mwyaf difreintiedig a sut mae pobl yn yr ardaloedd hyn yn aml yn wynebu anghenion lluosog, cymhleth sy'n effeithio ar eu lles.²⁹

Fodd bynnag, hyd yn oed mewn ardaloedd llai difreintiedig, roedd aelwydydd yn cael trafferth gydag iechyd gwael, cymwysterau addysgol cyfyngedig neu ddim cymwysterau addysgol o gwbl a diweithdra neu lefelau incwm isel.

Yn ystod yr asesiad, siaradodd yr awdurdod lleol â phobl ar draws y fwrdeistref a chlywed sut mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwerthfawrogi mannau gwyrdd, strydoedd diogel a glân, tai fforddiadwy ac iechyd da. Amlygwyd hefyd bwysigrwydd trafndiaeth fforddiadwy ac amserol o ran cael mynediad at addysg, cyflogaeth a gweithgareddau cymdeithasol. Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddefnyddiwyd a gasglwyd yn ystod yr asesiad, datblygwyd 7 amcan llesiant:

Ffigur 72 Amcanion Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen

1	2	3	4	5	6	7
Datblygu rhwydwaith o ardaloedd naturiol sydd wedi'i gysylltu, ac sy'n gweithio ar lefel weithredol, sy'n cefnogi anghenion llesiant poblogaethau lleol, nawr ac yn y dyfodol.	Datblygu ymatebion addas a lliniaru, ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd.	Rhoi'r cychwyn gorau i blant a phobl ifanc mewn bywyd.	Cefnogi ffyrdd iach o fyw a galluogi pobl i heneiddio'n dda.	Trechu patrymau tiodi ymhlith y cenedlaethau a datblygu gwydnwch economaidd.	Gwella sgiliau lleol trwy gynllunio'r gweithlu, hyfforddiant, prentisiaethau a chyfleoedd i wirfoddoli.	Creu cymunedau diogel, hyderus a hybu cydlyniant cymunedol.

Ffigur 7: Amcanion Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen

Strategaeth Gwent ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018 - 2023

Mae effeithiau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ddifrifol a gallant gael effaith sylweddol nid yn unig ar y dioddefwyr, ond ar eu teulu gos.

Pwrpas y strategaeth hon yw nodi dull integredig o atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a fydd yn gwella iechyd a llesiant unigolion a theuluoedd y mae cam-drin yn effeithio arnynt wrth ddwyn i gyfrif y rhai sy'n cam-drin.

Nod y strategaeth yw adeiladu ar bartneriaethau presennol, cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd ymhellach a darparu ymateb cadarn sydd yn y pen draw yn creu cymdeithas lle gall pawb fod yn rhydd rhag trais, camdriniaeth ac ofn.

Mae'r Strategaeth yn trefnu'r gwaith sydd angen ei wneud ar hyd tri llinyn allweddol y strategaeth genedlaethol:

²⁹ Cynllun Llesiant Torfaen 2018 – 2023, Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Torfaen

- Atal
- Diogelu
- Cynorthwyo

Yn ystod ei datblygiad, ystyriodd y strategaeth y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd, gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Pholisi Llywodraeth Cymru, canlyniad yr asesiad anghenion, dadansoddiad strategol o'r anghenion, a gofynnwyd am farn a safbwyntiau dioddefwyr a goroeswyr. Arweiniodd y dystiolaeth a'r data a gasglwyd at greu 6 blaenoriaeth strategol:

1. Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled Gwent.
2. Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a bod ymddygiad ymosodol bob amser yn anghywir
3. Cynyddu ffocws ar ddwyn troseddwyd i gyfrif a darparu cyfleoedd i newid eu hymddygiad yn seiliedig ar ddiogelwch dioddefwyr
4. Gwneud ymyrraeth gynnar ac atal yn flaenoriaeth
5. Mae gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael eu hyfforddi i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr
6. Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr i wasanaethau sydd ag adnoddau priodol, o ansawdd uchel, sy'n cael eu harwain gan anghenion, yn seiliedig ar gryfderau ac yn ymateb i rywedd ledled y rhanbarth.

Bydd y blaenoriaethau hyn a'r Cynllun Cyflenwi Strategol sy'n cyd-fynd yn cael eu defnyddio i weithio tuag at atal trais a chamdriniaeth, amddiffyn dioddefwyr a chefnogi pawb yr effeithir arnynt.

Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn- Cam 3: Cynllun Cyflenwi Torfaen (2015 - 2023)

Mae'r strategaeth leol hon wedi'i hanelu at wasanaethau cyhoeddus a sut y gall eu gweithredoedd helpu pobl yn Nhorfaen i ystyried materion a ddaw gyda henaint, i wneud cynlluniau a gweithredu lle bynnag y bo modd i feithrin llesiant.

Nododd y strategaeth nifer o faterion allweddol a fydd yn effeithio ar Dorfaen a darparu gwasanaethau.

Mae nifer y bobl hŷn yn Nhorfaen yn cynyddu

- Mae nifer yr aelwydydd sengl ymhlith pobl hŷn yn cynyddu
- Mae rhagamcanion poblogaeth yn dangos y bydd cynnydd o 80% yn nifer y rhai dros 75 oed erbyn 2031
- Gall iselder ac unigrwydd cymdeithasol effeithio cymaint ag 1 o bob 7 o bobl dros 65 oed

Mae'r strategaeth yn nodi'r meysydd gweithredu a ganlyn y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy:

- Adnoddau Cymdeithasol
- Adnoddau Amgylcheddol
- Adnoddau Ariannol
- Heneiddio'n dda yng Nghymru

Strategaeth Ddigartrefedd Gwent 2018 - 2022

Y weledigaeth a gyflwynir drwy strategaeth Ddigartrefedd Gwent yw bod gan bawb yng Ngwent gartref i fyw ynddo a'r cymorth cywir os oes ei angen arnynt, i fyw bywyd boddhaus.

Trwy gydweithio i oresgyn digartrefedd, mae'r strategaeth yn pennu'r blaenoriaethau a ganlyn:

- Blaenoriaeth 1: Help i wella mynediad at dai addas a fforddiadwy
- Blaenoriaeth 2: Cynnig cyngor a chymorth cyflym ac effeithiol, gan weithio gyda phartneriaid i helpu pobl fregus
- Blaenoriaeth 3: Lleihau digartrefedd a'i atal trwy ymyrraeth gynnar
- Blaenoriaeth 4: Sicrhau gwasanaethau teg, cyfartal, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, i'r digartref

Nododd yr Adolygiad Digartrefedd nifer o feysydd sydd ag angen ledled Gwent a lywiodd ddatblygiad y strategaeth:

Cynllun Digartrefedd: Cam II

Mae cam II y cynllun digartrefedd y cytunwyd arno yn cefnogi'r amcanion a gyflwynwyd drwy Strategaeth Ddigartrefedd Gwent, drwy gyflawni cynllun trawsnewidiol i feithrin gallu o ran opsiynau cymorth a llety i ddiwallu anghenion ein cymunedau.

Dull y Cyngor yw dilyn gofynion craidd y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a amlinellir isod:

- Cymorth
- Cynllunio
- Adeiladu
- Trawsnewid

Mae'r cynllun yn tynnu sylw at y ffaith bod y galw am lety ar draws Torfaen yn parhau i fod yn uchel, yn enwedig am lety i bobl sengl, sydd wedi'i amlygu yn y blynyddoedd diwethaf gyda'r cynnydd yn y lefel o gysgu ar y stryd a phwysleisiwyd ymhellach drwy'r galw ar wasanaethau drwy gydol pandemig COVID 19. Mae'r data sydd ar gael yn dangos gostyngiad yn y defnydd o lety dros dro i deuluoedd gyda chynnydd mewn lleoliadau i bobl sengl.

Mae angen darparu mwy o opsiynau ar gyfer pobl sengl dros 21 oed a sicrhau bod gwasanaethau symud ymlaen a bod cymorth effeithiol ar gael i osgoi cyfnodau hir o amser mewn llety dros dro. Dim ond trwy ailffocysu adnoddau a dull gweithredu y gellir gwneud hyn gan nad yw'r galw am dai cymdeithasol yn dangos unrhyw arwyddion o ostwng a bod tua 60% o'r gofrestr tai gyffredin yn cynnwys pobl sengl.

Yn ogystal, mae'r amser aros ar gyfer cynlluniau tai â chymorth yn cynyddu gyda hyn tua 250 o ddiwrnodau ar hyn o bryd, gan adael yr opsiynau'n gyfyngedig. Mae gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen yn llawer haws cael gafael arnynt, ond mae unigolion, ar adegau, wedi cael eu gorfodi i mewn i unedau llety mwy annibynnol nad ydynt o reidrwydd yn bodloni eu hanghenion a'u gofynion.

Mae trawsnewid gwasanaeth yn hanfodol i fynd i'r afael ag anghenion unigolion sy'n ceisio cymorth. Mae gan y Cyngor nifer o wasanaethau a systemau ar waith y gellir adeiladu arnynt ac sy'n hollbwysig i'r ffordd y bydd gwasanaethau'n trawsnewid i ddiwallu anghenion trigolion.

Mae rhan ganolog y cynllun yn canolbwyntio ar ail-alinio darpariaeth, gan greu HWB ganolog fydd yn canolbwyntio ar sut y bydd pobl sengl yn cael hyd i lety a gwasanaethau cymorth pan fyddant yn dod yn ddigartref. Mae hyn yn rhoi cyfle i adlinio gwasanaethau, dod â gwasanaethau newydd i mewn ac adolygu'r ddarpariaeth bresennol i ddiwallu anghenion

trigolion. Mae cydweithredu yn allweddol i wneud y newid hwn ac mae angen i bob asiantaeth fod yn gwbl ymrwymedig i'r newid hwn er mwyn sicrhau bod egwyddorion craidd y cynllun yn cael eu cyflawni gan na all y Cyngor gyflawni'r newid hwn ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, derbynnir mai'r Cyngor yw'r asiantaeth arweiniol o ran trawsnewid gwasanaethau a darparu cyfeiriad strategol.

Crynodeb

Mae'r asesiad anghenion hwn wedi nodi nifer o feysydd sy'n peri pryder y dylid eu hystyried a mynd i'r afael â hwy wrth ddatblygu cynllun Cyflenwi'r Rhaglen GCT. Rhaid i'r rhaglen GCT sicrhau ei bod yn parhau i ddarparu cymorth priodol, hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael a gweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i drigolion er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r heriau cyffredinol sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Bydd rhagamcanion o'r boblogaeth, cyflogaeth, incwm, cymwysterau, amddifadedd ac iechyd i gyd yn dylanwadu ar anghenion tai a chymorth hirdymor trigolion a bydd angen eu hystyried wrth ddatblygu'r strategaeth GCT. Mae rhai grwpiau mewn cymdeithas yn fwy tebygol o fyw mewn ardaloedd o amddifadedd nag eraill ac yn debygol o fod angen lefelau uwch o gymorth. Bydd angen i'r rhaglen GCT barhau i ddarparu cymorth i'r grwpiau hyn a chanolbwyntio ar ddarparu'r gwasanaethau hynny a fydd yn eu cynorthwyo a'u grymuso orau i wella eu sefyllfa.

Mae'r galw am wasanaethau yn uchel ar hyn o bryd ac yn debygol o gynyddu ymhellach yn y tymor byr, oherwydd y pwysau a grëwyd o ganlyniad i bandemig coronafirws, sef lefelau digartrefedd, iechyd meddwl gwael a phwysau ariannol. Bydd angen adolygu'r ddarpariaeth bresennol yn rheolaidd i sicrhau bod gwasanaethau'n addas i'r diben, yn blaengynllunio ac yn bodloni'r angen presennol a'r angen sy'n dod i'r amlwg. Bydd dulliau ataliol a gwaith amlasiantaeth yn hanfodol o ran mynd i'r afael yn effeithiol â rhai o'r anghenion a nodwyd, yn ogystal ag adeiladu ar arfer da presennol a gwella a datblygu mecanweithiau a gwasanaethau cymorth ymhellach.

Mae cyflenwi tai yn parhau i fod yn un o'r heriau mwyaf o ran mynd i'r afael â'r angen am dai ac er bod Torfaen wedi cael llwyddiant sylweddol o ran atal digartrefedd, mae'r gallu i'w leddfu yn parhau i fod yn her llawer anoddach, oherwydd y nifer cyfyngedig o lety sydd ar gael.

Datganiad Anghenion

Y Galw Yn Awr ac yn y Dyfodol

Mae nifer o anghenion wedi'u nodi drwy'r asesiad hwn a disgwylir iddynt barhau i fod yn broblem yn y blynyddoedd nesaf:

Diffyg llety addas

Un o'r pwysau mwyaf sy'n ein hwynebu o ran tai a darparu'r gwasanaeth GCT yn Nhorfaen yw'r diffyg opsiynau llety addas, yn enwedig llety â chymorth a llety â chymorth rhannol. Mae hyn yn sylweddol iawn o ran aelwydydd un person, fel y gwelir yn y lefelau uwch o bobl sengl sy'n cysgu ar y stryd, yn cyflwyno'u hunain yn ddigartref i'r awdurdod lleol, yn byw mewn llety dros dro neu'n chwilio am dai drwy'r gofrestr tai gyffredin. Oni bai bod mwy yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r diffyg llety, mae hwn yn faes y bydd galw amdano a fydd yn parhau yn y dyfodol

Mae llety wedi bod yn faes sy'n peri pryder ers peth amser, ac fe'i nodwyd yn aml fel bwch sylweddol yn ystod digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae prisiau tai bellach y tu hwnt i allu llawer o bobl sy'n prynu am y tro cyntaf ac mae gwerthoedd rhentu yn y sector preifat, sydd eisoes yn sector bach yn Nhorfaen, yn parhau i fod yn fywiog, gan wneud cael hyd i gartref yn anfforddiadwy mewn rhai rhannau o'r fwrdeistref. Yn ogystal, mae effeithiau diwygio budd-daliadau lles wedi effeithio ymhellach ar fynediad i'r sector rhentu cymdeithasol, yn enwedig i bobl iau sydd am rentu, gan ei gwneud yn anos cael gafael ar ddaliadaeth a oedd gynt yn fforddiadwy a haws ei chynnal.

Mae cynlluniau presennol i ddarparu mwy o opsiynau tai fforddiadwy yn helpu i fynd i'r afael â rhywfaint o'r angen hwn, ond ni allant gadw i fyny â'r lefelau cynyddol o alw. Dim ond trwy ddull cydunol a chyfunol y gellir darparu llety addas gyda'r holl bartneriaid allweddol yn cydweithio i archwilio a darparu modelau llety newydd. Rhoddir ffocws sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf ar gynyddu opsiynau llety, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc, gan alinio â nodau Cam II y Cynllun Digartrefedd a chysylltu â'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA), i sicrhau bod yr anghenion a nodir yn yr asesiad hwn yn cael eu hadlewyrchu wrth fynd ati i gynllunio a darparu tai yn y dyfodol.

Cynnydd yn y galw, yn cynnwys anghenion cymhleth a lluosog

Mae'r asesiad anghenion wedi dangos bod y galw am wasanaethau yn parhau'n uchel. Er gwaethaf llwyddiant rhai dulliau ataliol, mae lefelau digartrefedd yn dal i fod yn bryder, gan roi pwysau sylweddol ar y gwasanaeth tai, tra bod gan ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n cael cymorth yn aml anghenion mwy cymhleth, gan arwain at gynydd o 55% yn y ceisiadau i estyn y cymorth.

Mae nifer y bobl sydd angen lefelau cymorth mwy arbenigol wedi dod yn faes o bwysau ychwanegol ar wasanaethau ac fe'i hamlygwyd yn glir drwy'r gweithgaredd ymgysylltu â rhanddeiliaid, gyda llawer o ddarparwyr yn cael trafferth cynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau i gael hyd i'r cymorth arbenigol sydd ei angen arnynt.

I ddefnyddwyr y gwasanaeth, roedd cynyddu capasiti a lleihau amseroedd aros am gymorth yn flaenoriaeth a ddeilliodd o ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth.

Rhagwelir y bydd effeithiau'r pandemig yn debygol o arwain at lefelau uchel parhaus o alw am wasanaethau yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, gyda mwy o aelwydydd angen cymorth wrth i effeithiau economaidd ac emosiynol y pandemig ddechrau dod i'r amlwg. Mae ieuchyd meddwl eisoes wedi'i nodi fel maes lle cynyddodd y galw'n sylweddol, tra bod gwybodaeth gan bartneriaid cymdeithasau tai wedi nodi bod nifer o denantiaid mewn dyled ar hyn o bryd

a bydd angen mwy o gymorth arnynt unwaith y bydd y diogelwch presennol ynghylch troi allan o gartrefi wedi'i lacio.

Er mwyn diwallu'r angen a ragwelir, bydd y gwasanaeth Tai yn parhau i archwilio ffyrdd newydd a gwell o ddarparu gwasanaethau, gwneud y mwyaf o gapasiti presennol a cheisio rhoi darpariaeth arbenigol ar waith pan fydd anghenion penodol yn codi.

Dulliau amlasiantaeth ac adnoddau cyfyngedig

Nododd y Porth fod mwy o ddefnyddwyr gwasanaethau angen cymorth am gyfnod hwy a bod mwy o alw am rai anghenion cymorth allweddol nag eraill, gan roi mwy o bwysau ar yr adnoddau sydd ar gael. Gall y gwasanaeth Tai a GCT fynd i'r afael â rhai o'r anghenion hyn, ond mae angen dull amlasiantaeth ar gyfer anghenion mwy cymhleth eraill.

Amlygodd yr asesiad o anghenion y boblogaeth fod nifer y plant sy'n derbyn gofal yn Nhorfaen yn uchel. Nododd hefyd fod llawer o blant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuencid yn debygol o fod yn adnabyddus i ofal cymdeithasol plant a'u bod ymhlith y plant a'r bobl ifanc hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Bydd llawer o'r bobl ifanc hyn hefyd yn cysylltu â'r gwasanaeth tai am eu hanghenion llety.

Nodwyd bod cyllido a chomisiynu gwasanaethau VAWDASV arbenigol yng Ngwent yn gymhleth ac fe'i darperir gan asiantaethau amrywiol, sy'n ei gwneud yn anodd i ymarferwyr mewn sefydliadau partneriaeth ddeall pwysu sy'n darparu gwasanaethau ym mhob ardal awdurdod lleol. Mae hyn yn creu potensial i fethu gwasanaethau neu i wasanaethau ddyblygu, gan achosi dryswch a bylchau yn y cymorth, sy'n cynyddu'r perygl na fydd gwasanaethau'n mynd ati mewn ffordd effeithiol i ddiwallu anghenion a diogelwch y rhai sy'n cael cymorth.

Mae pwysigrwydd dulliau partneriaeth a gweithio amlasiantaeth wedi'u gwneud yn glir drwy gydol yr asesiad hwn a thrwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid. Bydd pwysigrwydd datblygu darpariaeth gwasanaeth cydgysylltiedig, lle mae asiantaethau a gwasanaethau gwahanol yn cydweithio'n ddi-dor, nid yn unig yn gwella canlyniadau pobl, ond hefyd yn arwain at ddarpariaeth fwy effeithlon ac effeithiol, drwy gyfuno adnoddau ac arbenigedd, a fydd yn helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau, creu arbedion maint a galluogi'r awdurdod lleol i ddarparu mwy o wasanaethau ar gyfer y gymuned.

Mae Torfaen eisoes wedi datblygu nifer o bartneriaethau effeithiol yn lleol a rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau pwrpasol lle mae angen penodol wedi'i nodi. Bydd yn bwysig parhau â'r dulliau cydweithredol hyn a pharhau i gysylltu ag asiantaethau ehangach i ddatblygu gweithio mewn partneriaeth ymhellach a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd orau wrth ddatblygu'r Cynllun Cyflenwi a gweithio i fodloni gofynion yn awr ac yn y dyfodol.

Rhwystrau i gymorth, diffyg ymgysylltu a grwpiau sydd ar yr ymyl

Mae yna rai unigolion o hyd sy'n cael trafferth cael hyd i wasanaethau neu ymgysylltu â nhw. Wrth ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, canfuwyd, er bod y cyrchu wedi bod yn syml, mai prin oedd y wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael, felly mae angen gwella ymwybyddiaeth a mwy o gyhoeddusrwydd o hyd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod grwpiau sydd ar yr ymyl neu'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd cael hyd i wasanaethau yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt.

Wrth ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau hefyd nodwyd bod iechyd meddwl yn rhwystro, tra bod yr asesiad o anghenion yn amlygu nifer gymharol uchel o ymgeiswyr digartref sy'n ymddieithrio cyn cyrraedd canlyniad boddhaol. Roedd gan y Porth hefyd nifer o atgyfeiriadau am gymorth a wrthodwyd, yn aml oherwydd ymddieithrio neu anallu i gysylltu â'r defnyddiwr gwasanaethau.

Bydd parhau i hyrwyddo gwasanaethau a chynnig mwy o hyblygrwydd yn hanfodol i helpu pobl i gael hyd i'r cymorth sydd ei angen arnynt cyn gynted â phosibl ac atal sefyllfaoedd rhag gwaethgu yn y dyfodol.

Meysydd Lle Mae'r Galw yn Uchel

Mae'r asesiad hwn wedi dangos bod rhai defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu cynrychioli'n well nag eraill ac mae angen monitro rhai meysydd lle mae'r galw yn uchel.

Mae aelwydydd person sengl sy'n ceisio cymorth gyda'u tai yn parhau i fod yn her a bydd yn parhau felly hyd nes y bydd opsiynau llety mwy addas a fforddiadwy ar gael.

Mae iechyd meddwl wedi bod yn faes y mae galw amdano ers peth amser. Fe wnaeth hyn waethgu ymhellach gan y pandemig. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn gadarn, ond mae monitro parhaus ac adolygu'r gwasanaethau yn parhau i fod yn flaenoriaeth, er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r gallu sydd eu hangen arnynt i fynd i'r afael ag anghenion cleientiaid.

Mae pobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau yn parhau i fod yn bryder ac er bod disgwyl i nifer cyffredinol y bobl ifanc leihau yn Nhorfaen dros yr 20 mlynedd nesaf, mae'r galw presennol ar wasanaethau yn parhau'n uchel. Pobl ifanc sy'n gadael gofal neu fath arall o sefydliad yw un o'r prif resymau dros ddigartrefedd ymysg pobl ifanc, ac er bod dull cydgysylltiedig o fynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc yn bodoli drwy Wasanaeth Cymorth Pobl Ifanc Torfaen, mae'r niferoedd uchel o blant sy'n derbyn gofal yn y fwrdeistref yn dangos y bydd bodloni eu hanghenion yn parhau i fod yn faes fydd yn teimlo'r pwysau am beth amser. Yn ogystal, mae ymchwil MALIC yn awgrymu bod pobl ifanc yn fwy tebygol o wynebu amddifadedd na grwpiau oedran eraill, a all arwain at nifer o anghenion ychwanegol, a fydd yn effeithio ymhellach ar ddarparu gwasanaethau, os na eir i'r afael â hyn yn gynnar.

Mae cam-drin sy'n gysylltiedig â VAWDASV yn parhau i fod yn uchel, a bydd yn bwysig sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn lleol yn cyd-fynd ag amcanion Grŵp Comisiynu VAWDASV Gwent. Nododd yr asesiad ddiffyg eglurder a chysondeb ar draws gwahanol awdurdodau lleol, gan greu rhwystrau posibl, tra nad oedd y data presennol am ddigwyddiadau VAWDASV yn ddigon cadarn. Bydd cydweithio gwell a dulliau mwy cydgysylltiedig yn bwysig er mwyn bodloni'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol a galluogi mynd ati i ddarparu mwy o fesurau ataliol.

Amlygodd yr asesiad o anghenion hefyd fod gan Dorfaen boblogaeth sy'n heneiddio, a allai gael effaith ar lefelau galw a'r gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol, gan fod angen cymorth a chefnogaeth fwy penodol ar drigolion.

Amddifadedd

Mae anweithgarwch economaidd yn faes sy'n peri pryder yn Nhorfaen a bydd comisiynu gwasanaethau GCT sy'n helpu i fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol, yn hanfodol. Mae anghydraddoldeb yn ehangu ac mae gan Dorfaen bocedi amlwg o amddifadedd, felly mae gweithio i fynd i'r afael â chynhwysiant ariannol, y defnydd o fanciau bwyd, darparu mwy o opsiynau tai fforddiadwy a chynnig atebion diriaethol, yn enwedig i aelwydydd sengl ifanc ac sy'n arbennig o fregus, yn parhau i fod yn hanfodol, i gefnogi'r agenda tlodi ehangach. Mae Torfaen eisoes wedi ehangu'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu o ran cynhwysiant ariannol a bydd yn parhau i adolygu ac addasu ei wasanaethau i ddiwallu anghenion sy'n dod i'r amlwg.

Anghenion Rhanbarthol

Nododd yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid rai materion nad oeddent yn unigryw i Dorfaen ac a oedd yn peri pryder i awdurdodau lleol ar draws y rhanbarth.

Recriwtio a Chadw

Nododd llawer o ddarparwyr gwasanaethau ledled ardal Gwent anawsterau o ran recriwtio a chadw staff o fewn y sector tai. Roedd hyn yn rhoi pwysau cynyddol ar ddarparwyr i ddarparu gwasanaethau ac o ganlyniad yn effeithio ar allu awdurdodau lleol Gwent i gomisiynu a gweithredu gwasanaethau'n lleol.

Cynhwysiant Digidol

Edrychodd yr ymgynghoriad â defnyddwyr gwasanaethau Gwent yn benodol ar bwysigrwydd cynhwysiant digidol, fel maes o angen sy'n dod i'r amlwg. Mae defnyddwyr gwasanaethau wedi nodi bod cael hyd i adnoddau ar-lein yn aml yn anodd a bod angen mwy o gefnogaeth a chymorth i gynyddu sgiliau a gwella mynediad ymhlith defnyddwyr gwasanaethau. Gyda mwy a mwy o wasanaethau'n cael eu darparu ar-lein, mae'r angen am lefelau uwch o gynhwysiant digidol yn debygol o fod yn faes y bydd galw amdano nawr ac yn y dyfodol.

Gwasanaethau Rhanbarthol

Mae rhywfaint o gymorth eisoes yn cael ei ddarparu drwy wasanaethau a gomisiynir yn rhanbarthol ac mae pwysigrwydd parhau i ehangu'r ddarpariaeth drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn bwysig i ddiwallu anghenion rhanbarthol. Pedwar maes penodol lle'r ystyrir bod hyn fwyaf perthnasol yw; Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl, VAWDASV a Throseddau.

Anghenion Statudol

Bydd Torfaen yn diwallu anghenion statudol y gymuned trwy ddarparu ei wasanaethau Digartrefedd presennol a thrwy ddatblygu a gweithredu dulliau newydd o fynd i'r afael â darparu tai.

Mae'r asesiad hwn wedi dangos, er gwaethaf y gwaith cadarnhaol sydd eisoes yn digwydd yn Nhorfaen i atal a lleihau digartrefedd; gan gynnwys gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal, bod y galw am gymorth gan aelwydydd ag anghenion statudol yn parhau i fod yn uchel ac ni fydd parhau i ddarparu gwasanaethau yn yr un modd yn bodloni'r heriau a wynebir yn ddigonol. Felly mae angen mabwysiadu dulliau gweithredu ychwanegol, i ategu at yr arfer da sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Mae rhai o'r anghenion pennaf a adnabuwyd yn cynnwys lefelau uwch o anghenion cymhleth, aelwydydd yn colli llety dros dro ac yn methu â sicrhau llety tymor hir a chynnydd yn nifer yr ymgeiswyr digartref yn arwain at ddefnydd cynyddol o lety gwely a brecwast, sydd yn aml wedi'i leoli y tu allan i'r sir.

Mae effaith lawn pandemig Covid, diwedd y cynllun ffyrlo, gostyngiad mewn taliadau credyd cynhwysol a budd-daliadau eraill, eto i'w gwireddu a rhagwelir y bydd yr effeithiau'n parhau i effeithio ar aelwydydd am amser sylweddol, a fydd, heb os, yn arwain at lefelau uchel o alw am wasanaethau.

Mae gallu'r awdurdod lleol i fynd i'r afael ag anghenion statudol a chynorthwyo aelwydydd sydd angen llety sefydlog yn heriol, oherwydd y nifer cyfyngedig o dai fforddiadwy sydd ar gael ar draws yr holl sectorau tai. Yn benodol, nid yw taliadau lwfans tai lleol yn gydnaws â thaliadau rhent cynyddol o fewn y sector rhentu preifat, i ganiatáu i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswyddau drwy'r sector hwn, gan arwain at gyfnodau hwy mewn llety dros dro.

Er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau hyn, bydd yr awdurdod lleol yn gweithio i ddatblygu mwy o opsiynau llety ar draws ystod o ddeiliadaethau a chroesawu dulliau newydd a all helpu i leddfu neu liniaru ychydig o'r pwysau a wynebir.

Trwy weithredu Cam II ei Gynllun Digartrefedd a'r strategaeth GCT, bydd Torfaen yn ceisio cynyddu a datblygu'r ystod o wasanaethau atal digartrefedd wedi'u targedu sydd ar gael, i atal digartrefedd a galluogi mwy o aelwydydd i aros yn eu llety presennol. Lle nad yw hyn yn llwyddiannus, bydd yr awdurdod lleol yn gweithio i ddarparu mwy o drefniadau symud ymlaen, i leihau'r amser a dreulir mewn llety dros dro, gan gefnogi egwyddorion ailgartrefu cyflym.

O dan ganllawiau Covid, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bawb gael eu rhoi mewn llety, mae'r awdurdod lleol bellach yn delio â chynnydd sylweddol yn y nifer sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartrefedd, a hynny gan aelwydydd o wahanol faint, sy'n rhoi pwysau ar y lletyau dros dro cyfyngedig sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae prisiau cynyddol o fewn y farchnad rhentu preifat wedi effeithio ar yr ymdrechion i gynyddu'r portffolio o letyau dros dro, ac mae'r cynnydd o ran prisiau tai wedi arwain at rai landlordiaid yn tynnu eu heiddo yn ôl o'r cynllun prydlesu llety dros dro am fod gwell incwm rhent ar gael ar y farchnad agored.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae Torfaen wedi parhau i weithio'n agos gyda landlordiaid lleol i archwilio opsiynau ar gyfer datblygu ac ehangu llety dros dro a'r ystod o opsiynau y gellir eu cynnig i aelwydydd. Mae hyn wedi cynnwys addasu eiddo i greu mwy o unedau llety person sengl (helpu i leihau defnyddio lletyau Gwely a Brecwast) ac ail-gyflunio'r ddarpariaeth hostel bresennol i ddarparu'n well ar gyfer proffil demograffig aelwydydd sy'n profi digartrefedd. Bydd y dull hwn yn parhau i gael ei fabwysiadu a'i roi ar waith yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, fel y gall y gwasanaethau addasu ac ymateb yn well i'r anghenion newydd sydd gan aelwydydd sydd angen cymorth statudol.

Mae mwy o aelwydydd bellach yn dangos anghenion cymhleth, sydd wedi effeithio ar eu gallu i gadw eu llety dros dro. Mae dulliau presennol o gefnogi'r defnyddwyr gwasanaethau hyn wedi bod yn aflwyddiannus ac felly er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion, mae Torfaen wedi mabwysiadu dulliau newydd, gan gynnwys datblygu cynllun Tai yn Gyntaf.

Trwy weithredu cynllun Tai yn Gyntaf a dulliau tebyg eraill, a fydd yn rhan o'r Cynllun Ailgartrefu Cyflym, bydd Torfaen yn sicrhau bod ganddo'r gwasanaethau a'r ddarpariaeth gywir yn eu lle i ddiwallu anghenion statudol ei thrigolion ac i ategu atynt gydag amrywiaeth o wasanaethau GCT i ddarparu dull mwy cyfannol o ddiwallu anghenion tai.